Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2016/17



OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG33537 ISBN digidol: 978-1-78859-921-4

## CYFLWYNIAD

**Lesley Griffiths AC – Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**



Mae'n bleser gennyf unwaith eto gyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn, gan nodi'r ffordd y mae'r system gynllunio yng Nghymru wedi cyflawni ei hamcan i ddarparu datblygiadau cynaliadwy yn y lleoliadau mwyaf priodol.

Mae cynaliadwyedd a ffyniant yn egwyddorion craidd yn rhaglen waith Llywodraeth Cymru, a nodir yn "Symud Cymru Ymlaen", ac mae "Ffyniant i Bawb" yn rhoi'r amlygrwydd i'r system gynllunio y mae'n ei haeddu fel yr adnodd defnydd tir ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd a ffyniant yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni cynaliadwyedd a ffyniant, rhaid i ni gael system gynllunio sy'n barod i chwarae ei rhan wrth lywio datblygiadau newydd, ac wrth gyfeirio gwaith datblygu i'r lleoliadau priodol. Mae'r gwaith moderneiddio a wnaed i'r system gynllunio a gyflwynwyd gan y Ddeddf Gynllunio eisoes wedi llwyddo i ddarparu system gliriach, fwy cydlynus, sy'n golygu y gellir llunio polisïau a gwneud penderfyniadau ar y lefel briodol. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd gael system gynllunio sy'n barod i ddarparu gwasanaethau lleol amserol ac effeithiol o ansawdd.

Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol eleni yn nodi meysydd o arloesedd a chydweithrediad sy'n dangos creadigrwydd ac ymrwymiad swyddogion cynllunio sy'n gweithio o fewn Llywodraeth Leol, ac rwyf wrth fy modd â'r ymdrech a wnaed ledled Cymru i anelu at wasanaethau lleol o ansawdd, er gwaethaf gostyngiad mewn adnoddau. Mae'n bleser gennyf hefyd weld y cynnydd a wneir wrth fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol, a hoffwn ganmol yr Awdurdodau Cynllunio Lleol am anelu at wneud penderfyniadau cynllunio o ansawdd yn ogystal â phenderfyniadau amserol.

Fodd bynnag, mae cyfle o hyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflawni mwy drwy gydweithio'n agosach, a gwnaed cynnydd cyfyngedig yn y maes hwn. Rydym yn paratoi i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol, ac mae nifer o Gynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth a gwaith ymchwil cyffredin. Caiff adnoddau arbenigol a thechnegol eu rhannu ar draws Llywodraeth Leol, ac mae grwpiau rhanbarthol o swyddogion yn cydweithredu fel mater o drefn er mwyn llunio arferion gwaith. O ganlyniad, rwyf yn disgwyl i'r gwasanaeth cynllunio groesawu'r newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i ddiwygiadau Llywodraeth Leol, ac o'r farn bod y system gynllunio mewn sefyllfa dda i fod ar flaen y gad wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Ionawr 2018**

## 1 – CYD-DESTUN

### Adroddiadau Perfformiad Blynyddol – Cefndir

Dyma drydydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) Cymru gyfan, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o fis Ebrill 2016 hyd at fis Mawrth 2017, yn seiliedig ar yr APBau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ym mis Hydref 2017. Mae'r APB Cymru gyfan hwn yn canolbwyntio ar y tueddiadau perfformiad dros y cyfnod y gwnaethom gasglu data Fframwaith Perfformiad ar ei gyfer, er mwyn llywio cyfeiriad y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Am y tro cyntaf, mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn ystyried rôl ymgynghoreion statudol wrth weithredu a darparu gwasanaethau cynllunio.

Lluniwyd y Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn dilyn yr Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol, a gyhoeddwyd yn 2013, a gynigiodd y dylid cyflwyno cyfres gyson o ddangosyddion perfformiad, a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y dangosyddion hynny. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn cynnwys tair elfen:

- Tabl perfformiad, sy'n rhestru'r dangosyddion a'r targedau y cytunwyd arnynt â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a pherfformiad pob Awdurdod yn eu herbyn;
- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gaiff ei baratoi gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol, gan fyfyrio ar ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a nodi meysydd lle y gellid gwella arfer gorau;
- APB Cymru Gyfan, wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae APB Cymru Gyfan yn ceisio darparu barn gyfannol ar y ffordd y caiff y system ei gweithredu, a nodi unrhyw angen am newidiadau deddfwriaethol neu weithredol yn seiliedig ar berfformiad y gwasanaeth cynllunio dros gyfnod o 12 mis.

Mae'r broses o lunio APB Cymru gyfan yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi darlun clir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth cynllunio yn gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae APB Cymru Gyfan yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried y materion a'r pwysau sy'n wynebu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) mewn ffordd strategol. Bwriedir iddo hefyd gynnig gwybodaeth am y pwysau gweithredol ar wasanaethau cynllunio lleol, ac effaith newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

### Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r ffynonellau canlynol:

- Mae'r tabl Fframwaith Perfformiad ar gyfer y cyfnod 2015-16 yn **Atodiad A**. Ceir mynegai o'r APBau a gyhoeddwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn **Atodiad B**.
- Mae ein gwe-dudalen Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn nodi'r targedau cyfredol a'r adroddiadau diweddaraf a gyhoeddwyd ar berfformiad.
- Mae ein gwe-dudalen APB yn cynnwys y dangosyddion perfformiad a'r targedau y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt, canllawiau ar fformat APBau a sut y dylid eu llunio, ac APBau o flynyddoedd blaenorol.

## 2 – GWASANAETHAU CYNLLUNIO A DDARPERIR GAN LYWODRAETH CYMRU

**Busnes Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru**

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 oedd y prif ffactor wrth bennu'r gwaith ar gyfer cyfnod adrodd 2015-16, a pharhaodd Deddf 2015 i lywio'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn ystod rhan gynharaf y cyfnod adrodd hwn hefyd.

Mae "Ffyniant i Bawb", sef strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, yn nodi'r angen i'r system gynllunio yng Nghymru chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen ar Gymru. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio drwy gydol y cyfnod adrodd yn adlewyrchu'r ffocws ar ddarparu a nodwyd yn "Ffyniant i Bawb", ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i gyflawni bwriad y strategaeth genedlaethol.

- Ymatebodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio i gynigion a nodwyd yn **Neddf Cymru 2017**, gan gynnwys ystyriaeth fanwl a helaeth i'r rhyng-gysylltiadau rhwng caniatadau cynllunio a chaniatadau ynni ar gyfer prosiectau datganoledig a phrosiectau nad ydynt wedi'u datganoli, yn ogystal â cheisio sicrhau bod y setliad datganoli yn cynnig eglurder o ran y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig ac ategol ar gyfer prosiectau sy'n destun Gorchmynion Caniatâd Datblygu. Gweithiodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio hefyd ar ddarpariaethau yn Neddf 2017 sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, systemau prynu gorfodol a systemau caniatâd ar gyfer seilwaith rheilffyrdd a datblygiadau cysylltiedig, a llinellau trawsyrru trydan.

- Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithio'n agos â Chomisiwn y Gyfraith ar **adolygiad o'r côd cynllunio i Gymru**, a fydd yn y pen draw yn arwain at gyflwyno Bil Cynllunio newydd, a fydd yn ceisio symleiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio Cymru mewn un man. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd y gyfraith i ddinasyddion a busnesau yng Nghymru yn sylweddol.

- Mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau â'i hymdrechion i wella **cydnerthedd gwasanaethau cynllunio lleol**. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yng nghylch y llynedd o APBau yn allweddol wrth lywio gwaith y Gyfarwyddiaeth ar "Diwygio llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad", sef papur ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio llywodraeth leol. Ystyriodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ym mis Ionawr 2017, ac mae wedi eu defnyddio i lywio gwaith datblygu a mireinio gyda chydweithwyr er mwyn gallu cynnwys y cynigion yn y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.

- Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau ar gyfer **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**, a goruchwyliodd y broses o weithredu'r system ar gyfer ymdrin ag achosion yn ymwneud â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DACau) a weithredir gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a'r broses o ddatblygu canllawiau cysylltiedig.

- Daeth Adran 2 o Ddeddf 2015 i rym ar 1 Ebrill 2017 a chyflwynodd **ddiben statudol ar gyfer y system gynllunio**, sef sicrhau datblygu cynaliadwy; mae Adran 2 yn cysylltu Deddf 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ceir

rhagor o fanylion ar Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r gwaith cysylltiedig yn ein Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol.

- Mae gwaith wedi dechrau i baratoi **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru**. Cyflwynwyd cais am dystiolaeth gennym rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mawrth 2017, a chyflwynwyd adroddiad ar yr ymatebion a gafwyd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

- Cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth **Rifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru** (PCC) a oedd yn cynnwys newidiadau polisi yn ymwneud â manwerthu a chanol trefi a'r amgylchedd hanesyddol, ac ymgynghorodd ar Nodyn Cyngor Technegol drafft newydd ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Rhoddodd y Gyfarwyddiaeth gefnogaeth a chymorth i Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth baratoi a mabwysiadu eu **Cynlluniau Datblygu Lleol** (CDLlau), a llywiodd waith yn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny a oedd yn cynnal adolygiad o'r cynlluniau a fabwysiadwyd.

- Cyflwynwyd y **Llawlyfr Rheoli Datblygu** er mwyn cydgrynhoi a chanoli cyngor ac arweiniad technegol ar gyfer prosesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio o fewn un ddogfen, ac o ganlyniad, llwyddwyd i ddiddymu a dileu cyfres o hen gylchlythyrau. Mae hyn wedi gwella hygyrchedd canllawiau technegol perthnasol i swyddogion cynllunio. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu ym mis Rhagfyr 2016 a gweithredwyd diwygiad cyntaf ohono hefyd ym mis Mai 2017.

- Gwnaed Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) 2017 ym mis Ebrill 2017, gan roi'r darpariaethau yn Neddf 2015 a oedd yn ymwneud â **maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio** ar waith, yn ogystal â newidiadau i'r drefn ar gyfer prosesu apeliadau cynllunio. Cyflwynwyd is-ddeddfwriaeth yn nodi manylion sut y câi'r newidiadau hyn eu rhoi ar waith hefyd ar yr un pryd.

- Diweddarodd Uned Adeiladu'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio **Ddogfennau Cymeradwy** A (Strwythur), B (Diogelwch Tân) a C (Paratoi safleoedd ac ymwrthedd i halogion a lleithder), yn ogystal â chynnal adolygiad o Ran L (Gwarchod tanwydd a phŵer).

- Gweithiodd swyddogion gyda rhanddeiliaid o lywodraeth leol a'r sector preifat i nodi manyleb, ac i ddewis ymgeisydd llwyddiannus, ar gyfer y contract i ddarparu **gwasanaeth ceisiadau cynllunio ar-lein** newydd i Gymru. Daeth y broses dendro i ben a dewiswyd ymgeisydd llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r gwaith i ddatblygu'r gwasanaeth newydd wedi dechrau, a chaiff ei lansio ym mis Ebrill 2018.

- Ymgysylltodd y Gyfarwyddiaeth hefyd â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y **Fframwaith Perfformiad Cynllunio** yn parhau i adlewyrchu gweithrediad y gwasanaeth cynllunio'n gywir, a gweithiodd gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu a diwygio'r dangosyddion perfformiad a'r targedau a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Lywodraeth Cymru**

| Math o Achos | Targed<br>80% neu fwy<br>60% - 80%<br>Llai na 60% | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Achosion Dyfarnu Costau | o fewn 84 diwrnod | 100%<br>3 o 3 | 100%<br>4 o 4 |
| Penderfyniadau o ran p'un a ddylid galw ceisiadau i mewn ai peidio | o fewn 21 diwrnod | 95%<br>38 o 40 | 89%<br>25 o 28 |
| Achosion Cyfarwyddyd Hysbysu | o fewn 21 diwrnod | 100%<br>7 o 7 | 60%<br>3 o 5 |
| Apeliadau a Adferwyd ac Achosion a Alwyd i Mewn | o fewn 84 diwrnod | 62%<br>5 o 8 | 0%<br>0 o 5 |
| Cadarnhau Gorchmynion Prynu Gorfodol | o fewn 84 diwrnod | 100%<br>3 o 3 | 100%<br>4 o 4 |
| Ceisiadau Sgrinio EIA | o fewn 21 diwrnod | 86%<br>19 o 22 | 88%<br>8 o 9 |
| Cadarnhau Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth | o fewn 84 diwrnod | 93%<br>28 o 30 | 100%<br>26 o 26 |
| Ceisiadau o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd | o fewn 112 diwrnod | Dd/G<br>0 o 0 | Dd/G<br>0 o 0 |

**Ffig 1 – Ystadegau Perfformiad Llwyth Achosion Llywodraeth Cymru**

Penderfynodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar 70 o'i 81 o achosion o fewn y targed, sef cyfradd ganran gyfartalog o 87%, yn erbyn targed o benderfynu ar 80% o geisiadau/apeliadau o fewn y cyfnod penodedig. Ar y cyfan, roedd amseroldeb penderfynu ar yr achosion hyn yn cyrraedd y targedau a bennwyd yn fras, er ein bod yn cydnabod bod oedi wrth brosesu nifer fach o achosion proffil uchel a chymhleth, oherwydd eu cymhlethdod technegol, wedi cael effaith andwyol ar faint sampl bach rhai mathau penodol o achosion.

Byddwn yn parhau i ddiwygio arferion gwaith a fydd yn symleiddio'r broses ar gyfer ymdrin â gwaith achos ymhellach ac a ddylai arwain at wella'r ffordd y caiff ceisiadau/apeliadau eu prosesu a byddwn yn ceisio gwella ein perfformiad yn 2017-2018 yn erbyn dangosyddion 2016-2017, yn arbennig yn y meysydd hynny lle na chyrhaeddwyd targedau.

**Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio (Cymru), ar ran Llywodraeth Cymru**

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gwneud penderfyniadau a gaiff eu llywio gan bolisïau a lunnir ac a fabwysiedir yng Nghymru. Mae'n gweinyddu'r broses apeliadau ar ran Gweinidogion Cymru, gan seilio ei phenderfyniadau a'i hargymhellion ar bolisïau lleol a chenedlaethol a luniwyd yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn allweddol wrth roi ei hagenda diwygio cynllunio ar waith. Darparodd yr ail ddigwyddiad blynyddol i randdeiliaid a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru ym mis Medi 2016 lwyfan ar gyfer trafod newidiadau i'r system apeliadau.

Mae Gweinidogion Cymru yn pennu targedau perfformiad ar gyfer gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys;

- archwilio CDLlau,
- goruchwylio astudiaethau o'r tir sydd ar gael ar gyfer tai,
- caniatadau adeilad rhestredig,
- gwaith achos sy'n ymwneud â thrwyddedau amgylcheddol,
- hawliau tramwy,
- tiroedd comin,
- gorchmynion prynu gorfodol.

| Math o Achos | Targed | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Cynllunio Ysgrifenedig (Rhan 2) | 85% mewn 16 wythnos | 94.91% | 96.03% |
| Cynllunio Ysgrifenedig (Rhan 1) | 85% mewn 12 wythnos | 95% | 97.62% |
| Gwrandawiadau Cynllunio | 85% mewn 22 wythnos | 92.42% | 91.84% |
| Ymchwiliadau Cynllunio | 85% mewn 30 wythnos | 100% | 72.73% |
| Gorfodi Ysgrifenedig | 85% mewn 29 wythnos | 100% | 100.00% |
| Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau Gorfodi | 85% mewn 41 wythnos | 88.89% | 81.62% |

**Ffig 2 – Ystadegau Perfformiad Llwyth Achosion Arolygiaeth Gynllunio Cymru**

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd perfformiad yr Arolygiaeth yn erbyn y targedau yn 2016/17 yn gadarnhaol, a chyrhaeddodd bob targed ac eithrio'r targedau ar gyfer achosion llafar ar gyfer gwaith achos apeliadau Cynllunio a Gorfodi. Nodir bod nifer fach o'r achosion hyn wedi cyfrannu at y methiant i gyrraedd y targed.

Mae safon gwaith Arolygiaeth Gynllunio Cymru hefyd yn parhau'n uchel, gan gyflawni 99.84% yn erbyn targed o 99%, ar gyfer penderfyniadau a gyflwynwyd heb unrhyw wallau, ac nid oedd 99.35% o'r gwaith achos yn cynnwys unrhyw wallau gweinyddol.

Roedd llwyth gwaith Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar gyfer 2016-2017 ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Ni chyflwynwyd unrhyw gynlluniau datblygu ond roedd tri archwiliad yn mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn. Cyflwynwyd cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac mae'r cais hwnnw'n cael ei ystyried.

# 3 – PERFFORMIAD YMGYNGHOREION STATUDOL


Mae Adran 3 yn ystyried perfformiad ymgynghoreion statudol wrth sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn gweithredu'n hwylus.

Nodir ymgynghoreion statudol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) fel y sefydliadau hynny y dylid eu hysbysu am gynigion datblygu yn ystod y cam cyn ymgeisio a'r cam ar ôl ymgeisio, er mwyn ystyried eu harbenigedd penodol mewn perthynas ag agweddau penodol ar gynigion. Gall ymatebion ymgynghoreion statudol fod yn bwysig iawn wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Rhoddodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswydd ar ymgynghoreion statudol i gyflwyno adroddiadau ar eu hamseroldeb wrth ymateb i ymholiadau cyn ymgeisio, ac i ymgynghoriadau statudol ar geisiadau cynllunio, ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae ymgynghoreion statudol wedi cyflwyno adroddiad ar eu perfformiad.

Er ein bod yn croesawu ymdrechion y rhan fwyaf o ymgynghoreion sydd wedi croesawu'r trefniadau monitro newydd, mae'n siomedig bod llai na hanner yr awdurdodau priffyrdd lleol wedi cydymffurfio â'u dyletswydd adrodd. Darparodd 38 o ymgynghoreion statudol ddata perfformiad, a methodd 23 ohonynt â chyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol hon, gan gynnwys 5 Awdurdod Cynllunio Lleol ac 16 o Awdurdodau Priffyrdd.

**YMGYNGHORIADAU CYN YMGEISIO**




**Ffig 3 – Nifer yr ymgynghoreion statudol a ddarparodd ddata ar ymgynghoriadau cyn ymgeisio**


Mae Ffigur 3 uchod yn dangos nifer yr ymgynghoreion statudol a ddarparodd ddata ar ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio statudol gan ddatblygwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob datblygwr ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghoreion statudol cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae hyn yn ofyniad statudol mewn sefyllfaoedd lle mae datblygwyr yn bwriadu ymgymryd â gwaith datblygu sylweddol, a cheir dyletswydd gyfatebol i ymgynghoreion statudol ddarparu ymateb o sylwedd pan ymgynghorir â nhw.

Cyfoeth Naturiol Cymru a gafodd y nifer uchaf o ymgynghoriadau cyn ymgeisio, sef ychydig llai na 900. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu datgrynhoi'r ceisiadau ar gyfer ymgynghoriadau statudol ac anstatudol. Felly, mae'r ffigur uchod yn goramcangyfrif nifer y ceisiadau statudol mewn perthynas â datblygiadau mawr.

Mae'n debygol mai cwmnïau dŵr yw'r ymgynghorai mwyaf ond un, ond nid oes union ffigurau ar gael ar gyfer y sector, gan na all Severn Trent Water ddatgrynhoi ei ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr. Cafodd Dŵr Cymru 144 o ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod hwn.

Dim ond 6 awdurdod priffyrdd a gyflwynodd adroddiad ar ymgynghoriadau cyn ymgeisio, gan ddarparu amrediad llwyth gwaith yn amrywio o 72 o ymgynghoriadau i un fesul awdurdod. Mae hyn yn debygol o fod yn arwydd o fethiant ehangach awdurdodau priffyrdd lleol i ymgysylltu â datblygwyr yn ystod cam cynnar er mwyn dylanwadu ar waith dylunio ac osgoi problemau'n ddiweddarach.




**Ffig 4 – Canran yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol, yn ôl y grŵp ymgynghoreion**


Dengys Ffigur 4 y perfformiad cyfartalog ar draws pum grŵp o ymgynghoreion statudol. Gyda chyfradd ymateb o 92%, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn is na'r holl 'ymgynghoreion eraill' ac eithrio Gweithredwyr Rhwydweithiau Rheilffyrdd (86%).

Nid yw perfformiad adrannau Priffyrdd Awdurdodau Lleol mor gadarnhaol, gyda chyfartaledd o 65.3% o ymgynghoriadau cyn ymgeisio yn cael ymateb o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Mae hyn yn amrywio o ddau awdurdod priffyrdd a nododd eu bod wedi cyflwyno pob ymateb o sylwedd yn brydlon i awdurdod lle na ddarparwyd unrhyw

ymatebion o sylwedd o fewn y terfyn amser statudol. Mae'r diffyg ymatebion gan adrannau priffyrdd hefyd yn tanseilio uniondeb y safon perfformiad hon.

Mae angen mwy o ymdrech i gasglu a chofnodi data ar gyfer y dangosydd hwn yn y dyfodol, er mwyn llywio llwyddiant gweithredol gweithdrefnau ymgynghori cyn ymgeisio yn well. Rydym yn bwriadu cynnal gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda phrif weithredwyr awdurdodau lleol er mwyn annog mwy o gyfrifoldeb corfforaethol dros wella lleoedd. Mae'n bosibl o hyd y gallai Gweinidogion Cymru gynnwys y dangosydd perfformiad hwn fel sbardun ar gyfer dynodi awdurdodau â pherfformiad gwael yn y dyfodol.


**YMGYNGHORIADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**




**Ffig 5 – Nifer yr ymgynghoreion statudol a ddarparodd ddata ar ymgynghoriadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio**

Fel gydag ymgynghoriadau cyn ymgeisio, dengys Ffigur 5 gyfradd ymateb siomedig gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Priffyrdd wrth ddarparu ystadegau perfformiad ar gyfer ymatebion i geisiadau cynllunio. Ymatebodd pedwar awdurdod priffyrdd ychwanegol (cyfanswm o 10) mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Ymgynghorwyd â'r cwmnïau dŵr ar y cyfanswm cyfun uchaf o geisiadau cynllunio, sef dros 8000, a chyflwynwyd y mwyafrif helaeth o'r rheini i Dŵr Cymru. Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru i bron i 7200 o geisiadau. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thua 1000 o geisiadau a chyflwynodd yr Awdurdod Glo sylwadau ar 840.




**Ffig 6 – Canran yr ymgynghoriadau ceisiadau cynllunio yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol, yn ôl y grŵp ymgynghoreion**

Dengys Ffigur 6 fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfradd ymateb well i geisiadau cynllunio nag ymgynghoriadau cyn ymgeisio, sef 95%. Mae hyn hefyd yn gyffredinol yn wir ar gyfer yr holl ymgynghoreion eraill. Er bod y gyfradd yn well na'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio, y gweithredwyr rhwydweithiau rheilffordd oedd y corff â'r perfformiad gwaethaf o hyd yn y categori 'arall'.

Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan weithredu yn eu rhinwedd fel awdurdod 'cyfagos') ac Awdurdodau Priffyrdd sydd lleiaf tebygol o ymateb i geisiadau cynllunio o fewn y cyfnod amser sy'n ofynnol gan Orchymyn 2012. I'r gwrthwyneb, parhaodd safon perfformiad uchel adrannau Llywodraeth Cymru ac ymgynghoreion eraill o ran canran yr ymatebion ymgynghori a ddarparwyd yn brydlon.

Ceir tabl yn nodi'r ystadegau perfformiad llawn ar gyfer ymatebion o sylwedd i geisiadau cynllunio 2016-17 yn Atodiad C.

## CASGLIAD

Mae'r ystadegau uchod yn nodi bod ymgynghoreion statudol, ar y cyfan, yn ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau ac ar achosion cyn ymgeisio o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ymddengys nad yw llywodraeth leol yn gwneud cystal ag ymgynghoreion statudol eraill o ran ei pherfformiad. Mae'r dystiolaeth hon yn cadarnhau sylwadau a wnaed fel rhan o APBau blaenorol am y pwysau cyllidebol ar wasanaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio, yn arbennig Priffyrdd, sy'n effeithio ar brydlondeb gwneud penderfyniadau ar geisiadau.

Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol ac mae angen i lywodraeth leol ymateb ar fyrder er mwyn sicrhau bod swyddogion cynllunio a phriffyrdd yn cydweithio mewn ffordd gydweithredol ac amserol i helpu i sicrhau lleoedd cynaliadwy.

## 4 – PERFFORMIAD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL

Mae Adran 4 yn adolygu perfformiad y 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, fel y'i mesurir gan y Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Daw'r canlyniadau o'r tabl Fframwaith Perfformiad a gyhoeddir ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2016 hyd at fis Mawrth 2017.

Caiff dangosyddion a thargedau'r Fframwaith Perfformiad eu hadolygu bob blwyddyn. Cynhaliwyd y cyfarfod adolygu diweddaraf ar 6 Mehefin 2017, a chytunwyd ar nifer o ddiwygiadau i'r Fframwaith Perfformiad gyda chynrychiolwyr yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Roedd y newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2017 yn cynnwys cyflwyno targedau perfformiad newydd, gan adlewyrchu perfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf, ar gyfer:

- Dangosydd 05 – canran y ceisiadau mawr y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn brydlon;
- Dangosydd 15 – canran y cwynion am dor-rheolaeth cynllunio, yr ymatebwyd iddynt o fewn 84 diwrnod;

Yn ogystal â'r diwygiadau a wnaed i gynyddu'r bandiau perfformiad ar gyfer:

- Dangosydd 07 – canran yr holl geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn brydlon; y trothwy blaenorol ar gyfer symud o'r band "gwella" i'r band "gweddol" oedd 60%, ond fe'i cynyddwyd bellach i 70%, er mwyn adlewyrchu'r perfformiad cadarnhaol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Yn dilyn gwaith sylweddol gan gynrychiolwyr Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gysondeb wrth gymhwyso dangosyddion gorfodi cynllunio, cytunwyd nad oedd y dangosyddion canlynol mewn gwirionedd yn cynrychioli'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, a phenderfynwyd eu diddymu:

- Dangosydd 16 – yr amser cyfartalog i ymchwilio i achosion honedig o dor-rheolaeth cynllunio (er y bydd y data yn cael eu casglu o hyd);
- Dangosydd 17 – canran yr achosion lle y cymerir camau gorfodi o fewn 180 diwrnod o gael gwybod am achos, unwaith y bydd achos o dor-rheolaeth wedi'i gadarnhau;
- Dangosydd 18 – yr amser cyfartalog i gymryd camau gorfodi.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dangos gwelliant cyffredinol wrth fesur perfformiad yn erbyn y rhan fwyaf o'r dangosyddion a'r targedau. Mae APBau unigol yn nodi bod dulliau lleol effeithiol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad wedi gwella ymwybyddiaeth o statws achosion, gan nodi pryd y mae achosion yn debygol o fod yn hwyr, er mwyn gallu ymyrryd. Mae'r broses o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i rai Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth nodi gwelliannau i brosesau, ac ymdrin â llwyth gwaith a gwaith cynllunio busnes.

Cytunwyd ar newidiadau i'r ffordd y caiff ceisiadau cynllunio eu marcio fel ceisiadau "prydlon" yn ystod cyfnod adrodd 2014-15. Yn ystod pob cyfnod adrodd ers hynny, bu twf yn nifer y ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch y tu allan i'r cyfnodau amser statudol, er eu bod wedi'u gwneud o fewn estyniad amser y cytunwyd arno â'r ymgeisydd. Er bod penderfyniadau yn cael eu gwneud "yn brydlon" ar gyfer mwy o

geisiadau, mae'r cynnydd hwn yn golygu bod yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau yn cynyddu.

Mae sawl Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi eu bod wedi rhoi technegau rheoli achosion mwy effeithiol ar waith, gan nodi enghreifftiau lle mae achosion yn debygol o gymryd yn hirach na'r cyfnodau amser statudol, ac o ganlyniad i hynny, gwneir mwy o geisiadau am estyniadau. Ar yr amod bod yr ymgeisydd yn cytuno i'r estyniad, mae hyn yn rhoi'r amser ychwanegol sydd ei angen ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniad ar yr achos. Ceir cyfle o hyd i apelio ar sail methu penderfynu, er bod hyn yn berthnasol i'r cyfnod amser newydd y cytunwyd arno gyda'r ymgeisydd.

Trafodwyd y cynnydd yn yr amser cyfartalog gyda chynrychiolwyr o'r sector preifat yn ystod digwyddiadau "Sgwrs Rheoli Datblygu" a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 13 ac 17 Tachwedd 2017. Er y byddai'n well gan randdeiliaid i'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau fod yn gyflymach, daeth thema gyffredin i'r amlwg a oedd yn gofyn am y penderfyniad "cywir". Roedd cynrychiolwyr i weld yn fodlon derbyn y byddai'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau yn cymryd yn hirach pe byddai hynny'n arwain at gymeradwyo eu ceisiadau. Nodwyd yr estyniad amser ar gyfer apelio i Weinidogion Cymru, ac amharodrwydd i gynhyrfu'r awdurdodau drwy apelio, fel rhesymau pam y câi estyniadau amser eu cytuno. Roedd pryder sylweddol ynghylch addasu dangosyddion er mwyn hepgor estyniadau amser, gan ofni y byddai hynny'n arwain at gynnydd yn nifer yr achosion a wrthodwyd. Ystyriwyd y byddai gorfod ailgyflwyno ceisiadau yn arwain at gynnydd yn y cyfnod o amser y byddai cynigion datblygu yn destun gweithdrefnau cynllunio, a fyddai'n cynyddu'r costau i ddatblygwyr.

Roedd rhai Pwyllgorau Cynllunio yn addasu i'r newidiadau a gyflwynwyd i weithdrefnau Pwyllgorau gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac wedi croesawu'r egwyddorion o ddirprwyo mwy o geisiadau cyffredin a cheisiadau lefel isel i swyddogion. Gwnaed 1,610 o benderfyniadau gan Bwyllgorau yn ystod y cyfnod adrodd, o gymharu â 1,737 yn ystod y flwyddyn flaenorol. I'r gwrthwyneb, mae nifer y penderfyniadau a wnaed yn groes i gyngor swyddogion wedi cynyddu, o 157 i 175. Er nad yw'n bosibl creu cyswllt uniongyrchol rhwng yr holl achosion a wrthdrowyd gan Aelodau a phenderfyniadau apêl, gan fod llawer o benderfyniadau sy'n mynd yn groes i gyngor swyddogion yn gymeradwyaethau ac felly nid oes modd apelio yn eu herbyn, mae perfformiad apeliadau serch hynny wedi dioddef yn ystod yr un cyfnod.

Mae APBau yn cynnwys newyddion cadarnhaol am drefniadau cydweithredu wrth gaffael a gosod systemau TGCh, a fydd yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau gwelliannau gwasanaeth gan gyflenwyr fel rhan o gydgytundeb rhwng defnyddwyr ag anghenion cyffredin.

Er nad yw'r APBau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys yr un lefel o wybodaeth am gyllid a staffio â blynyddoedd blaenorol, mae thema gyffredin, sef ei bod yn ofynnol i adrannau cynllunio ymateb i doriadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn neu doriadau cyllidebol treigl. Ar y cyfan, cedwir y ffioedd cynllunio a dderbynnir gan adrannau cynllunio, er bod cyllid Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nodweddiadol yn cael ei leihau er mwyn cyfateb unrhyw incwm ffioedd, sy'n golygu na cheir unrhyw fudd net i wasanaethau cynllunio.

Er mwyn i'r system gynllunio weithredu'n effeithiol, rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael iddi. Mae'n briodol mai'r ymgeisydd sy'n talu cost y gwasanaeth a gaiff, er nad yw'r ffioedd sy'n gysylltiedig â rhai mathau o geisiadau yn ddigon i dalu costau prosesu'r

ceisiadau hynny. I'r gwrthwyneb, mae ffioedd ceisiadau cynllunio mawr yn darparu cymhorthdal ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai lleoliadau.

Nid yw'r broses o ddeall y lefel adnoddau briodol ar gyfer y swyddogaeth statudol hon yn syml, ac mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio i gynnal astudiaeth o gost darparu gwasanaethau cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio i gasglu'r sail dystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth, a fydd yn cynnal adolygiad o lefelau staffio a gorbenion presennol Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn ogystal â'r llwyth gwaith nodweddiadol a thrwybwn timau cynllunio.

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn helpu i gadarnhau nodweddion gwasanaeth cynllunio effeithiol ac effeithlon, a faint y dylai ei gostio. Caiff y data hyn yn eu tro eu defnyddio i helpu i ystyried ffioedd cynllunio yn y dyfodol, a bydd angen iddynt fod yn ddigon cadarn i lywio Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er mwyn ategu unrhyw ddeddfwriaeth ffioedd a gyflwynir. Felly mae'n hanfodol bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi'r broses ac yn helpu i lunio sail dystiolaeth gywir.

Mae gwaith cadarnhaol i gydweithredu er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd fwy effeithlon yn parhau i fynd rhagddo yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae gwasanaethau Mwynau a Gwastraff ar y cyd Sir y Fflint a Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu staff ar gyfer y meysydd polisi hynod dechnegol a chymhleth hyn ar gyfer cyfran helaeth o Gymru. Mae Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgynghorwyr allanol i safoni gweithdrefnau a chyflwyno arferion cyffredin ar gyfer gwasanaethau treftadaeth ac ecoleg yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18.

## TROSOLWG O BERFFORMIAD CYFARTALOG CYMRU YN ERBYN YR HOLL DDANGOSYDDION


Mae'r siart hon yn cymharu perfformiad cyfartalog Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yng Nghymru yn erbyn 18 dangosydd y Fframwaith Perfformiad, ar gyfer y cyfnodau 2014/15 hyd at 2016/17. Cyflwynwyd nifer o'r dangosyddion hyn ym mis Tachwedd 2014. Nid oes data cymharol ar gael ar gyfer y cyfnodau cynharach.

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio cynlluniau** | | | | | | |
| 1. A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith sy'n berthnasol i gyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| 2. Y gwyriad, wrth baratoi CDLlau, o'r dyddiadau a ddynodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | <12 | 13-17 | 18+ | 47 | 39 | 58 |
| 3. Lluniwyd Adroddiadau Monitro Blynyddol ar ôl mabwysiadu'r CDLl | Do | | Naddo | Do | Do | Do |
| 4. Cyflenwad tir presennol yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer tai, mewn blynyddoedd | 5+ | | <5 | 4.2 | 3.9 | 2.9 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| 5. Canran y ceisiadau "mawr" y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 60+ | 60.1-59.9 | <50 | 24 | 35.3 | 59 |
| 6. Amser a gymerodd, ar gyfartaledd, i wneud penderfyniadau ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau | | | | 206 | 212.7 | 250.2 |
| 7. Canran yr holl geisiadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 70.1-79.9 | <70 | 72.7 | 76.6 | 86.7 |
| 8. Amser a gymerodd, ar gyfartaledd, i wneud penderfyniad ar bob cais, mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | 76.4 | 77.2 | 75.9 |
| **Ansawdd** | | | | | | |
| 9. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5 | 5-8.9 | 9+ | 10.1 | 9.0 | 10.9 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd | 66+ | 55.1-65.9 | <55 | 65.6 | 66.5 | 60.9 |
| 11. Ceisiadau am gostau fel rhan o apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn ystod y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | |
| 12. A yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydy | | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| 13. A oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| 14. A yw gwefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys cofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd edrych arni, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)? | Ydy | Yn rhannol | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| **Gorfodi** | | | | | | |
| 15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (lle gwnaed penderfyniad p'un a fu tor-rheolaeth cynllunio ac, os felly, lle y penderfynwyd p'un a fyddai camau gorfodi yn briodol ai peidio) o fewn 84 diwrnod | 80+ | 70.1-79.9 | <70 | 65.8 | 79.4 | 85.0 |
| 16. Amser a gymerodd, ar gyfartaledd, i ymchwilio i achosion gorfodi | | | | 71.1 | 88.1 | 74.3 |
| 17. Canran yr achosion gorfodi lle y cymerir camau gorfodi neu y ceir cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd yn briodol cymryd camau gorfodi) | | | | 76.8 | 72.8 | 73.0 |
| 18. Amser a gymerodd, ar gyfartaledd, i gymryd camau gorfodi | | | | 175.5 | 210.1 | 139.8 |

## ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUNIAU

| Dangosydd 01 - A oes Cynllun Datblygu cyfredol sydd o fewn cyfnod y cynllun? | oes (21 o 25 ACLl) |
|---|---|




**Ffig 7 – Awdurdodau Cynllunio Lleol â chynllun datblygu mabwysiedig ym mis Mawrth 2017**

Dengys Ffigur 7 nad oedd gan bedwar Awdurdod Cynllunio Lleol gynllun datblygu cyfredol mabwysiedig ym mis Mawrth 2017. Roedd gan 18 allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol CDLl mabwysiedig (72%).


O blith y pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol heb gynllun cyfredol mabwysiedig, dim ond Cyngor Sir Ynys Môn nad oedd ganddo gynllun mabwysiedig. Roedd gan Gynghorau Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Wrecsam oll Gynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) mabwysiedig ar waith er bod cyfnod y cynllun wedi dirwyn i ben adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, ac roedd gan Gynghorau Gwynedd, Powys ac Abertawe CDU ar waith yr oedd cyfnod y cynllun ar fin dirwyn i ben.

Defnyddir CDLl fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio gan eu bod yn mynegi polisi cynllunio mewn cyd-destun gofodol, lleol. Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi bod yn rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun mabwysiedig oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ffaith nad oes cynllun datblygu cyfredol yn golygu bod gwneuthurwyr penderfyniadau mewn sefyllfa fwy bregus wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau, yn arbennig gan fod y sail dystiolaeth sy'n ategu'r polisïau yn dyddio.

Dangosydd 02 - Y gwyriad, wrth baratoi CDLl, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd


58 o fisoedd

Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol, ar ddechrau'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, gyhoeddi Cytundeb Cyflawni, yn nodi sut y bydd yn paratoi'r cynllun, gan gynnwys amserlen yn nodi camau allweddol y broses. Mae'r dangosydd hwn yn mesur llithriad oddi wrth y cerrig milltir allweddol a nodwyd yn yr amserlen wreiddiol yn y Cytundeb Cyflawni. Dim ond i Awdurdodau Cynllunio Lleol nad oeddent wedi mabwysiadu eu CDLl eto ym mis Mawrth 2017 y mae hyn yn berthnasol.




**Ffig 8 – Oedi wrth baratoi CDLlau, mewn misoedd**

Mae Cynghorau Sir Gwynedd ac Ynys Môn yn anelu at lunio Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, felly er bod chwe awdurdod wedi'u rhestru uchod, mewn gwirionedd dim ond pump CDLl a oedd wrthi'n cael eu paratoi yn ystod y cyfnod adrodd.




**Ffig 9 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r oedi cyfartalog wrth baratoi CDLlau, mewn misoedd**

Dengys Ffigur 9 gynnydd yn yr oedi wrth baratoi CDLl yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Er y disgwylir y bydd penderfyniad tri Awdurdod Cynllunio Lleol i fabwysiadu CDLl yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn ystod yr APB nesaf, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r oedi cyfartalog a fydd yn weddill, ac ar ôl i

Ynys Môn a Gwynedd fabwysiadu eu CDLl ar y cyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r oedi a gofnodir yn y dyfodol.

| Dangosydd 03 - Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Ie (14 o 14 CDLl) |
|---|---|

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn ofynnol gan ddeddfwriaeth. Maent yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r polisïau ar waith ac wrth gyflawni amcanion a gweledigaeth pob CDLl. Mae AMBau yn nodi p'un a yw strategaeth a pholisïau'r CDLl yn gweithio fel y bwriadwyd. Cytunir ar eu cyd-destun a'u dangosyddion fel rhan o'r broses archwiliadau cyhoeddus, cyn mabwysiadu CDLl. Gall ystyried canfyddiadau AMB, yn arbennig lle ceir tuedd i fethu â chyrraedd targedau, sbarduno adolygiad rhannol neu lawn o CDLl.

Mae angen i bob Awdurdod Lleol roi ystyriaeth ofalus i b'un a yw'n llwyddo i gyflawni ei bolisïau ai peidio. Lle ceir diffygion, dylid cymryd camau adferol er mwyn unioni unrhyw ddiffygion ar unwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r sail dystiolaeth ddyddio. Mae dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol i adolygu'r CDLl a fabwysiadwyd ganddo bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu.

Mae dyletswydd ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol â CDLl mabwysiedig i gyflwyno AMB i Weinidogion Cymru, gan gyflwyno adroddiad ar y broses o weithredu targedau'r CDLl. Gwnaeth pob un o'r 14 o Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny o fewn y terfyn amser ym mis Hydref 2017. Gellir dod o hyd i fanylion pob AMB, a chasgliadau'r awdurdod perthnasol, ar wefan pob awdurdod.

| Dangosydd 04 - Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | 2.9 mlynedd |
|---|---|


Mae'r system gynllunio yn gyfrifol am nodi safleoedd addas ar gyfer tai newydd drwy broses y CDLl. Disgwylir i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos bod digon o dir ar gael y gellir ei ddefnyddio o fewn ardal yr awdurdod i adeiladu tai ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn seiliedig ar y gofynion tai a nodwyd yn ei CDLl. Cyfeirir at y ffordd y caiff y gofyniad polisi hwn ei fonitro fel y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS). Bob blwyddyn, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnal yr astudiaethau hyn ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan chwe awdurdod gyflenwad tir ar gyfer tai gwerth pum mlynedd neu fwy (gweler Ffigur 6 isod).  Gall diffyg tir ar gyfer tai, diffyg darpariaeth gan y diwydiant adeiladu tai, neu ddiffyg amrywiaeth a dewis o safleoedd, olygu na all cynllun yr awdurdod ddangos cyflenwad gwerth pum mlynedd.

Lle na all Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos cyflenwad tir ar gyfer tai gwerth pum mlynedd, dylid rhoi ystyriaeth sylweddol i'r angen i gynyddu'r cyflenwad lle ceir cais i ddatblygu tai nas nodwyd yn y CDLl, ar yr amod y byddai'r datblygiad yn cydymffurfio fel arall â'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio cenedlaethol. Mae hyn yn berthnasol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrth wneud penderfyniad ar y cais a lle cyflwynir apêl. Dylai Awdurdodau Cynllunio


Lleol ystyried y rhesymau dros y diffyg o ran cyflenwad tir ar gyfer tai a ph'un a ddylid nodi mesurau i ymdrin â'r diffyg fel rhan o'u Hadroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl.

Nodir y cyd-destun polisi cenedlaethol yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai




**Ffig 10 – Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol â chyflenwad tir ar gyfer tai gwerth 5 mlynedd neu fwy (ar 31 Mawrth 2017)**

Dengys Ffigur 10 uchod gyflenwad tir ar gyfer tai pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru ar 31 Mawrth 2017. Ni all Awdurdodau Cynllunio Lleol heb CDLl mabwysiedig (neu CDU mabwysiedig cyfredol ar ddyddiad sylfaen y Cyd-astudiaeth) gynnal Cyd-astudiaeth ac felly ystyrir bod ganddynt gyflenwad tir ar gyfer tai gwerth sero mlynedd. O ganlyniad, mae pedwar Awdurdod Cynllunio Lleol yn dangos cyflenwad tir ar gyfer tai gwerth sero mlynedd.




**Ffig 11 - Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol â chyflenwad tir ar gyfer tai gwerth 5 mlynedd**

Dengys Ffigur 11 uchod fod nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru â chyflenwad tir ar gyfer tai gwerth 5 mlynedd wedi gostwng ychydig o gymharu â blwyddyn gyntaf y Fframwaith Perfformiad.

Mae'r cyflenwad tir fel y'i nodir mewn Cyd-astudiaethau wedi gostwng i lawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan gynnwys rhai sydd wedi mabwysiadu CDLlau yn ddiweddar. Mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (*Astudiaeth hyfywedd hydredol o’r broses gynllunio*) yn nodi mai un o'r prif resymau yw y caiff safleoedd eu neilltuo ar gyfer tai nad yw, yn y bôn, yn bosibl eu defnyddio neu nad ydynt yn debygol o fod ar gael tan yn ddiweddarach yn ystod cyfnod y CDLl.

Mae parodrwydd tirfeddianwyr a datblygwyr i fodloni'r ymrwymiadau a wneir ganddynt yn derbyn sylw cynyddol wrth ystyried CDLlau. Ymddengys fod tirfeddianwyr a datblygwyr yn dadlau yn erbyn safleoedd o fewn CDLlau drwy'r broses Cyd-astudiaethau, gan nodi nad ydynt yn hyfyw yn economaidd nac yn addas ar gyfer adeiladu, oherwydd nifer o ffactorau megis polisïau tai fforddiadwy.

Cydnabu'r gwaith ymchwil fod tystiolaeth o ddatgysylltiad gwirioneddol rhwng dyheadau tirfeddianwyr / datblygwyr ar y naill llaw ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y llaw arall. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau cyflawni is na'r disgwyl ar safleoedd a neilltuwyd fel rhan o CDLlau ac mae'n amlwg yn cael effaith andwyol ar y cyflenwad tir ar gyfer tai ledled Cymru.


Mae'r sefyllfa hon yn tynnu sylw at yr angen i asesu safleoedd yn fwy trylwyr cyn eu dyrannu fel rhan o CDLlau ac i annog tirfeddianwyr a datblygwyr i ymgysylltu mwy â'r broses, fel yr argymhellwyd yn adroddiad ymchwil Arcadis.

**ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD**

Dangosydd 05 - Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | 59%

Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol gyfnod amser statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Os na wneir penderfyniad ynghylch cais o fewn y cyfnod amser statudol hwn, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio, ar sail methu penderfynu. Caniateir cyfnod o 16 wythnos ar gyfer cais sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, oherwydd cymhlethdod technegol y wybodaeth ategol. Ar gyfer pob cais arall, caniateir cyfnod o 8 wythnos.


Gall Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn i'r ymgeisydd am estyniad gwirfoddol i'r cyfnod amser hwn, ac mae'r dangosydd hwn yn cynnwys achosion lle y cytunwyd ar estyniad, ac y bodlonwyd yr amserlen ddiwygiedig, fel penderfyniadau "prydlon".




**Ffig 12 – Cymhariaeth o berfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio mawr**

Dengys Ffigur 12 berfformiad unigol pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Yn gyffredinol, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dengys y siart duedd anarferol, lle mae awdurdodau llai â llwyth gwaith nodweddiadol is o ran ceisiadau mawr wedi perfformio orau o ran amseroldeb.

Er enghraifft, gwnaeth CBS Merthyr Tudful benderfyniad ar bob un o'r 10 cais mawr a gyflwynwyd iddo naill ai o fewn y cyfnodau amser statudol neu o fewn yr estyniad amser y cytunwyd arno gan yr ymgeisydd. Gwnaeth APC Bannau Brycheiniog benderfyniad ar 19 allan o'r 21 o geisiadau mawr o fewn y cyfnodau amser statudol, gan ymdrin â nifer anarferol o uchel o geisiadau mawr o safbwynt Awdurdod Parc Cenedlaethol.





**Ffig 13 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran y ceisiadau cynllunio mawr y gwnaed penderfyniad yn eu cylch "yn brydlon"**

Mae'r gymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn yn Ffigur 13 yn dangos gwelliant mewn perfformiad ledled Cymru yn erbyn y dangosydd hwn. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn mewn perthynas â'r amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, fel y'i nodir yn nangosydd 06 isod.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddarparu gwasanaeth cyn ymgeisio statudol, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2016. Rhoddodd Deddf 2015 hefyd ddyletswydd ar ddatblygwyr i gynnal ymgynghoriad cymunedol statudol cyn ymgeisio, a ddaeth i rym o fis Awst 2016.


Bwriad y ddau newid hyn yw datrys cymhlethdodau a gwneud diwygiadau i gynlluniau cyn eu cyflwyno, gan olygu y gellir ystyried ceisiadau yn fwy hwylus ac yn gyflymach. Bydd unrhyw effaith gadarnhaol yn deillio o'r gwelliannau hyn ar y system gynllunio wedi dod yn weithredol yn ystod ail hanner y cyfnod adrodd, felly byddai'n rhy gynnar awgrymu mai'r newidiadau hyn oedd yn gyfrifol am unrhyw welliant cyffredinol yn erbyn y dangosydd hwn.




**Ffig 14 – Gwnaed penderfyniad ynghylch pob cais mawr o fewn y cyfnod amser ar gyfer gwneud penderfyniadau**

I'r gwrthwyneb, dengys Ffigur 14 uchod er bod nifer y ceisiadau mawr wedi bod yn sefydlog ers 2014, bod y nifer y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn brydlon wedi lleihau ychydig ers y flwyddyn flaenorol.

Byddai gwrthod cytuno i estyniad yn arwain naill ai at wrthod caniatâd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ac o bosibl, apêl ddilynol yn erbyn y gwrthodiad) neu fethiant i wneud penderfyniad ar y cais o fewn y cyfnod amser y cytunwyd arno, a allai arwain at ad-dalu'r ffi gynllunio neu apêl ar sail methu penderfynu.




**Ffig 15 – Cyfran y ceisiadau mawr y gwnaed penderfyniad yn eu cylch "yn brydlon" sy'n destun estyniad amser y cytunwyd arno**


Fel y dengys Ffigur 15, gwnaed penderfyniad ynghylch 255 (63%) o'r 405 o geisiadau mawr y gwnaed penderfyniad yn eu cylch "yn brydlon" yn ystod y cyfnod adrodd mewn gwirionedd y tu allan i'r cyfnodau amser statudol ond o fewn estyniad amser y cytunwyd arno gyda'r ymgeisydd. Mae hyn yn cymharu â 95 (35.6%) o 267 yn ystod y flwyddyn flaenorol. I'r gwrthwyneb, gwnaed penderfyniadau ynghylch llai o geisiadau mawr o fewn y cyfnodau amser statudol yn 2016-17 (150) nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (172).

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dechrau gofyn yn awtomatig am estyniad amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio mawr; er enghraifft, mae un Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio yn ei APB at neges wedi'i hawtomeiddio a gynhyrchir gan ei system TG yn ystod wythnos 7 o 8, yn atgoffa'r swyddog achos i ofyn i'r ymgeisydd gytuno i estyniad.

Rhaid cytuno ar yr estyniadau amser hyn gyda'r ymgeisydd, ac felly rhaid cymryd bod y cynnydd mewn defnydd yn golygu bod yr ymgeisydd yn fodlon cytuno i'r estyniad. Mae hyn yn awgrymu bod ymgeiswyr yn barod i aros yn hirach am benderfyniad ynghylch ceisiadau mawr o ganlyniad i negodi, yn hytrach na chael gwrthodiad prydlon.

Awgrymodd ymgynghorwyr cynllunio yn ystod y digwyddiadau 'Sgyrsiau Rheoli Datblygu' a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 fod ymgeiswyr yn cytuno i estyniadau amser ar geisiadau cynllunio er mwyn osgoi meithrin cydberthynas waith negyddol â swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol.


| Dangosydd 06 - Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | 250.2 diwrnod |
|---|---|




**Ffig 16 – Cymhariaeth o'r amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio mawr**

Dengys Ffigur 16 uchod yr amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio mawr ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau o’r math hwn wedi cynyddu, ac mae'r amser a gymerir gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol eisoes yn dangos, hyd yn oed yn yr enghraifft â'r perfformiad cyflymaf, bod ceisiadau yn cymryd 36.8 diwrnod yn hirach ar gyfartaledd na'r cyfnod amser statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau mawr, sef 56 diwrnod (neu 8 wythnos).

Mae'r awdurdod arafaf yng Nghymru yn cymryd 566.8 diwrnod ar gyfartaledd (dros 18 mis) i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau mawr a ddylai fel arfer gael eu penderfynu o fewn 8 wythnos.




**Ffig 17 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodau**


Fel gyda APB Cymru Gyfan ar gyfer 2015-16, mae'r APB hwn yn dangos bod perfformiad yn erbyn dangosydd 05 (canran y ceisiadau mawr y gwneir penderfyniad yn eu cylch "yn brydlon") wedi gwella'n sylweddol, ac ar yr un pryd, bod yr amser gwirioneddol a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau hyn, fel y dangosir yn nangosydd 06, wedi cynyddu 37.5 diwrnod ar gyfartaledd. Fodd bynnag, dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r canfyddiadau o dan Ddangosydd 05; mae ymgeiswyr yn cytuno i estyniadau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau.

Yn yr APB blaenorol, gwnaethom ystyried egwyddor fframiau amser ar gyfer ceisiadau mawr, a nodir ar wahân yn Lloegr fel 13 wythnos. Ar adeg ysgrifennu Adroddiad 2015-16, roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno newidiadau i'r ffordd y caiff ceisiadau mawr eu prosesu, gan gynnwys cyfnod statudol cyn ymgeisio ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Bwriad y newidiadau hyn yw nodi heriau a mireinio cynigion cyn dechrau'r cloc ar gyfer y broses ymgeisio, er mwyn gallu ystyried y materion hyn yn y cais a gaiff ei gyflwyno wedi hynny.

Ni fyddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru ystyried diwygio'r cyfnodau amser statudol hyn pan nad yw'r newidiadau i'r system cyn cyflwyno ceisiadau, y bwriadwyd iddynt hwyluso a chyflymu'r broses graffu, wedi'u hymgorffori a'u profi'n llawn eto. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau ar weithdrefnau cyn ymgeisio er mwyn gweld a oes effaith gadarnhaol ar amseroldeb wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau.


Dangosydd 07 - Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol

86.7%




**Ffig 18 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran yr holl geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch "yn brydlon"**


Gwnaed penderfyniad ynghylch 21,674 o'r 25,008 o geisiadau cynllunio a ystyriwyd o fewn y cyfnod amser statudol yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17; sef cyfradd o 86.7%. Mae hyn yn parhau â'r gwelliant a ddangoswyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, ac yn symud cyfartaledd Cymru ar gyfer perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn i'r band "da".




**Ffig 19 – Cymhariaeth o berfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth wneud penderfyniadau ynghylch pob cais cynllunio**

Mae perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol yn erbyn y safon hon yn parhau i wella. Cyflawnodd pob Awdurdod Cynllunio Lleol ond chwech y safon perfformiad "da" yn erbyn y dangosydd hwn, a dim ond un Awdurdod Cynllunio Lleol sydd o fewn y band "gwella", er gwaethaf y ffaith y cytunwyd ar gynnydd yn y safon perfformiad ar gyfer y band hwn ym mis Mai 2017.


Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nodi llwyddiant penodol gyda chytundebau perfformiad cynllunio neu gynlluniau "llwybr carlam" ar gyfer datblygiadau bach neu ddatblygiadau gan ddeiliaid tai, gan warantu penderfyniadau o fewn 28 diwrnod o gyflwyno cais dilys ac incwm ffioedd dewisol uwch i Awdurdodau Cynllunio Lleol. O ystyried bod y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio y gwneir penderfyniadau yn eu cylch yn perthyn i'r categori hwn, bydd gwelliannau i amseroldeb ymdrin â cheisiadau bach a cheisiadau gan ddeiliaid tai yn cael effaith eang ar adroddiadau perfformiad yn gyffredinol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen diwygio trefniadau dirprwyo er mwyn gallu defnyddio'r dull gweithredu llwybr carlam hwn ar gyfer cynlluniau llai.




**Ffig 20 – Defnyddio estyniadau y cytunwyd arnynt wrth wneud penderfyniadau ynghylch pob cais cynllunio**


Dengys Ffigur 20 er bod estyniad amser wedi'i gytuno ar gyfer nifer o geisiadau, bod cyfran yr holl geisiadau ag estyniad o'r fath yn gymharol fach ac felly nad yw'r un amrywiadau sylweddol yn gysylltiedig â pherfformiad yn erbyn y dangosydd hwn â'r amrywiadau a welwyd yn achos dangosydd 05, ac a ddangoswyd yn Ffigur 12.

Dangosydd 08 - Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | 75.9 diwrnod




**Ffig 21 – Cymhariaeth o'r amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch pob cais cynllunio**

Dengys Ffigur 21 uchod gymhariaeth o'r cyflymderau cyfartalog ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch pob math o gais. Ar y cyfan, mae perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol yn erbyn y dangosydd hwn yn bodloni disgwyliadau rhesymol, ac eithrio un allanolyn eithafol. Mae Cyngor Sir Powys, ar gyfartaledd, yn cymryd teirgwaith mor hir â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (ei gymydog i'r de) i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.  Mae Cyngor Sir Powys wedi nodi nifer o faterion gweithredol anarferol y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt, gan gynnwys absenoldebau staff ac ymdrech benodol i ddatrys achosion gorfodi hanesyddol, sydd wedi dylanwadu ar ei safon perfformiad allanol yn erbyn y dangosydd hwn.





**Ffig 22 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch pob cais cynllunio, mewn diwrnodau**

Ar gyfartaledd, roedd yn cymryd 75.9 diwrnod i wneud penderfyniad ynghylch cais yng Nghymru, gostyngiad bach o 77.2 diwrnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. Byddai dileu'r data ar gyfer yr allanolyn eithafol a ddangosir yn Ffigur 17 yn lleihau hyn ymhellach i 72 diwrnod.

**ADRAN 3 - ANSAWDD**

## Dangosydd 09 - Canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o dan bwerau datganoledig — 10.9%


Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn unol â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu mabwysiedig, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn arwain at benderfyniad gwahanol. O ganlyniad, cymharol anaml y dylid gwneud penderfyniad ar gais sy'n mynd yn groes i'r polisïau hyn. Lle y gwneir penderfyniad ar gais sy'n mynd yn groes i bolisïau'r cynllun, dylid nodi rhesymau cynllunio clir yn yr hysbysiad o benderfyniad, gan gyfiawnhau'r rhesymau dros wyro o'r cynllun. Lle bydd adroddiad swyddog yn seiliedig ar bolisïau clir o fewn CDLl, anaml y dylai aelodau wneud penderfyniad sy'n groes i'r cyngor hwnnw.




**Ffig 23 – Canran y ceisiadau cynllunio y gwneir penderfyniad yn eu cylch yn groes i gyngor swyddogion**


Dengys Ffigur 23 uchod ganran y ceisiadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn groes i argymhelliad swyddogion gan Bwyllgorau Cynllunio mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol, fel canran o'r holl geisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch gan y Pwyllgor Cynllunio hwnnw.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae un Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwyro cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn sylweddol. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am 45 allan o'r cyfanswm o 175 o benderfyniadau a wrthdrowyd yn ystod y cyfnod adrodd, neu dros chwarter. Byddai diddymu'r allanolyn eithafol hwn yn lleihau cyfartaledd Cymru ddau bwynt canran.





**Ffig 24 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion**

Bydd Pwyllgorau Cynllunio fel arfer yn ystyried ceisiadau mwy o faint, mwy cymhleth neu fwy sensitif, a gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau llai o dan bwerau dirprwyedig. Mae hyn yn cyfeirio amser ac ymdrech y Pwyllgor Cynllunio tuag at yr achosion sy'n haeddu ei sylw fwyaf. Wrth reswm, os gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau llai ond mwy dadleuol gan y Pwyllgor, yna mae'r ceisiadau hynny yn fwy tebygol o dderbyn penderfyniad sy'n groes i argymhelliad swyddogion.




**Ffig 25 – Nifer y penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Cynllunio**

Dengys Ffigur 25 fod nifer y penderfyniadau a wneir gan Bwyllgor Cynllunio yn gymharol debyg i'r nifer yn ystod y flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, ni fu unrhyw ostyngiad yn nifer penderfyniadau'r Pwyllgor i gyfiawnhau'r cynnydd yn nifer y penderfyniadau a wrthdrowyd.




**Ffig 26 – Nifer y ceisiadau cynllunio y gwneir penderfyniad yn eu cylch yn groes i gyngor swyddogion o gymharu â chyfanswm nifer penderfyniadau'r Pwyllgor**


Mae Ffigur 26 uchod yn cymharu nifer y penderfyniadau a wrthdrowyd â chyfanswm nifer penderfyniadau'r Pwyllgor. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n gwrthdroi'r nifer uchaf o benderfyniadau hefyd yn gwneud penderfyniadau ar nifer gymharol isel o achosion drwy'r Pwyllgor, ac nid yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny lle gwneir cyfran uwch o benderfyniadau gan y Pwyllgor, megis CBS Wrecsam, yn dangos eu bod yn gwrthdroi cyfran yr un mor uchel o benderfyniadau.

Mae cyngor swyddogion ar geisiadau cynllunio yn seiliedig yn bennaf ar y polisïau a nodir yn y cynllun datblygu mabwysiedig perthnasol, gan ystyried hefyd unrhyw ystyriaethau eraill perthnasol. Mae'r gyfraith gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol ystyried y cynllun datblygu mabwysiedig fel y brif ystyriaeth. Mae gwrthod cais yn groes i bolisïau'r cynllun datblygu yn golygu y bydd penderfyniad Awdurdod Cynllunio Lleol yn fregus os cyflwynir apêl yn ei erbyn, lle bydd yr Arolygydd Cynllunio yn cymhwyso'r un rhesymeg. Felly gallai gwrthod cais yn groes i gyngor arwain at waith (a chostau) diangen os cyflwynir apêl.

Gan groesgyfeirio perfformiad gwael o fewn y dangosydd hwn a dangosydd 10 (canran yr apeliadau a wrthodir), disgwylir y bydd cyfradd wrthod uchel yn erbyn cyngor swyddogion yn cyfateb i gyfradd isel o ran gwrthod apeliadau, o ystyried y gwahaniaeth tebygol rhwng safbwyntiau aelodau a pholisïau CDLlau. Fodd bynnag, yn achos CS Ceredigion, caniateir y penderfyniadau hyn i wyrdroi penderfyniad yn bennaf yn groes i gyngor (42 penderfyniad) yn hytrach na'u gwrthod (3 phenderfyniad). O ganlyniad, prin yw'r cyswllt achosol rhwng perfformiad gwyrdroi'r Cyngor a'i berfformiad mewn apeliadau.

I grynhoi, ni ellir creu unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng nifer y penderfyniadau a wneir gan bwyllgorau (neu a ddirprwyir) a'r tebygolrwydd y caiff y penderfyniadau hynny eu gwyrdroi. Yn hytrach, mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn syml yn fwy tueddol o ddiystyru cyngor eu swyddogion. Mae hyn yn awgrymu naill ai bod cydberthynas wael rhwng Aelodau a Swyddogion, neu fod yr Aelodau perthnasol yn gwyro oddi wrth y polisïau a nodir yn y cynllun datblygu mabwysiedig perthnasol, gyda risg uwch gyfatebol o fethu adeg apêl lle y caiff ymgeiswyr eu gwrthod yn groes i gyngor.


**Dangosydd 10 - Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod** **60.9%**




**Ffig 27 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodir**


Mae'r siart yn Ffigur 27 yn dangos perfformiad pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru adeg apêl.  Mae'r cyfartaledd ledled Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd fymryn o fewn y band perfformiad "da".  Fel gyda blynyddoedd blaenorol, derbynnir y gall maint sampl bach wyro'r perfformiad a gofnodir gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol llai yn sylweddol.

Dim ond dau o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny a gyflawnodd safon perfformiad "gwella" a lwyddodd i ddangos cyflenwad tir ar gyfer tai gwerth 5 mlynedd.  Mae hyn yn pwysleisio'r angen i fodloni'r gofynion a nodir yn NCT 1 i ddangos cyflenwad tir ar gyfer tai gwerth 5 mlynedd, a breguster penderfyniadau apêl pe na fyddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu gwneud hynny.




**Ffig 28 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran yr apeliadau cynllunio a wrthodir**

Dengys Ffigur 28 fod cyfanswm o 335 o 550 o apeliadau (60.9%) wedi'u gwrthod yn 2016/17, sef gostyngiad bach o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol.




**Ffig 29 – Cymhariaeth o'r gwrthodiadau a wrthdrowyd a'r apeliadau a wrthodwyd**

Fel gydag APB 2015-16, rydym wedi cymharu nifer y penderfyniadau cynllunio lle y gwrthodwyd caniatâd yn groes i gyngor swyddogion, â'r gyfradd llwyddiant gyffredinol adeg apêl. Er bod rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n mynd yn groes i'r duedd hon, yn nodweddiadol nid yw Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gwrthod caniatâd gan fynd yn groes i

gyngor swyddogion yn perfformio'n dda yn erbyn y dangosydd hwn, ac o ganlyniad, yn nodweddiadol, nid yw Arolygwyr Cynllunio yn cefnogi'r rhesymau cynllunio dros wneud y penderfyniadau hyn yn groes i gyngor swyddogion.


Bydd gwrthod caniatâd yn groes i gyngor swyddogion yn golygu y bydd y penderfyniad yn fregus os cyflwynir apêl cynllunio. Bydd swyddogion yn seilio eu cyngor ar bolisïau'r cynllun datblygu, a bydd Arolygwyr Cynllunio hefyd yn rhoi cryn bwysau ar y polisïau a nodir yn y cynllun mabwysiedig perthnasol wrth wneud eu penderfyniadau. Felly, wrth reswm, os bydd Pwyllgorau yn ystyried cyngor eu swyddogion, mae'r penderfyniadau sy'n deillio o hynny yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus adeg apêl.

Ni ellir gofyn i Swyddogion Cynllunio amddiffyn penderfyniad a wnaed gan Aelodau yn erbyn eu cyngor proffesiynol ac felly rhaid i'r Aelodau amddiffyn y penderfyniadau hyn adeg apêl. O bryd i'w gilydd, caiff ymgynghorwyr cynllunio (neu hyd yn oed gyfreithwyr cynllunio) eu cyflogi i ymgymryd â'r gweithgaredd hwn ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, a all arwain at gostau sylweddol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. At hynny, pan fydd apelydd yn llwyddiannus adeg apêl, gall geisio adennill costau'r apêl gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o broses yr apêl, gan gynnwys ffioedd proffesiynol ymgynghorydd cynllunio neu gynrychiolydd arall.

Gall adolygu penderfyniadau apêl helpu Pwyllgorau Cynllunio i osgoi ailadrodd camgymeriadau mewn perthynas â phenderfyniadau. Mae sawl Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio at yr arfer o adolygu penderfyniadau apêl fel rhan o'u hyfforddiant i Aelodau, ac mae rhai ohonynt yn paratoi adroddiadau chwarterol ar berfformiad mewn apeliadau i'r Aelodau eu hystyried.


| Dangosydd 11 - Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 (14 o 25 CDLl) |
|---|---|

Yn ystod apêl, rhoddir cyfle i'r apelydd a'r awdurdod perthnasol geisio adennill costau proses yr apêl os byddant o'r farn bod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae'r costau yn gysylltiedig â'r gwaith a'r ymdrech sydd eu hangen i ystyried yr apêl – gall hyn gynnwys yr amser a'r costau sydd eu hangen i swyddogion neu asiantiaid roi tystiolaeth.




**Ffig 30 – Nifer yr achosion lle y dyfarnwyd costau yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol adeg apêl**

Dengys Ffigur 30 uchod y dyfarnwyd costau yn erbyn Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn 17 o achosion – ac roedd pedwar awdurdod yn destun dau achos costau, gydag awdurdod arall yn destun tri achos costau apêl yn ystod yr un cyfnod adrodd.




**Ffig 31 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr achosion lle y dyfarnwyd costau yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol adeg apêl**

Noda cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn gynnydd siomedig yn nifer yr achosion lle y dyfarnwyd costau yn erbyn Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y cyfnod adrodd. Dyfernir costau yn erbyn Awdurdod Cynllunio Lleol drwy ddyfarniad gan yr Arolygydd Cynllunio bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol nid yn unig wedi gwrthod caniatâd heb sail gynllunio dda, ond ei fod hefyd wedi gwneud hynny'n afresymol.

Mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi nodi bod trefniadau i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr achosion hyn yn ofalus wedi helpu i atal Aelodau rhag gwrthod caniatâd heb sail


gynllunio gadarn, gan felly ymdrin â pherfformiad yn erbyn y dangosydd hwn mewn blynyddoedd dilynol.

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTU**

| Dangosydd 12 - A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydyn (24 0 25 CDLl) |
|---|---|


Mae penderfyniadau cynllunio yn gweithredu ar sail proses ddemocrataidd – caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud gan gynrychiolwyr etholedig er budd ehangach y cyhoedd, ac er mwyn sicrhau uniondeb o fewn y system gynllunio, rhaid sicrhau ffydd yn y gwerthoedd a'r dyfarniadau sy'n sail i'r penderfyniadau hynny gan Aelodau etholedig. Y ffordd symlaf, fwyaf effeithiol i atgyfnerthu hyn yw sicrhau y gall y cyhoedd gael gwybodaeth am y penderfyniadau wrth iddynt gael eu gwneud.

Mae'r gallu i annerch y Pwyllgor Cynllunio yn rhoi cyfle i ddinasyddion gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn rhoi cyfle iddynt ddylanwadu ar ffurf y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, gan gynyddu'r ymdeimlad o gymuned. Dyma un o amcanion craidd "Ffyniant i Bawb".




**Ffig 32 – Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio**

Dengys Ffigur 32 uchod mai dim ond un Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru nad yw'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch Aelodau'r Pwyllgor wrth iddynt wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n weddill yn deall gwerth y dull gweithredu cyfranogol hwn wrth wneud penderfyniadau.





**Ffig 33 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr awdurdodau sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio**


Ers 2015, CBS Merthyr Tudful fu'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch ei Bwyllgor Cynllunio. Nododd y Cyngor yn 2016 ei fod yn ystyried cyflwyno'r arfer hwn, er na wnaed unrhyw gynnydd ers y dyddiad hwn.

| Dangosydd 13 - A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes (22 o 25 CDLl) |
|---|---|

Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynnig gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd", lle y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â swyddog penodedig drwy gydol y diwrnod gwaith er mwyn datrys ymholiadau ar faterion cynllunio neu gael cyngor ar gynigion datblygu ac ystyriaethau polisi tebygol. Mewn achosion mwy cymhleth neu mwy o faint, gellir cyfeirio ymholiadau cyn ymgeisio at y gwasanaethau cyn ymgeisio statudol neu anstatudol mwy ffurfiol.




**Ffig 34 – Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gweithredu cynllun Swyddog ar ddyletswydd**





**Ffig 35 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr awdurdodau sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd"**

Mae Ffigur 35 yn nodi na fu unrhyw newid o ran nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd" dros gyfnod o dair blynedd. Mae pob un o'r tri Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n weddill nad ydynt yn cynnig y gwasanaeth hwn (CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CS Ceredigion a CS Gwynedd) wedi ystyried yr angen am y gwasanaeth ac wedi penderfynu, yn ôl eu hamgylchiadau eu hunain, peidio â'i ddarparu.


Mae'r egwyddor o ddarparu "swyddog ar ddyletswydd" yn creu cyfle i ddatblygwyr ofyn am gyngor arbenigol ar unrhyw gynigion. Mae cyflwyno gwasanaeth cyn ymgeisio statudol yn cyfyngu ar y galw am gyngor gan swyddogion ar ddyletswydd i ryw raddau, yn arbennig lle y mae'n well gan y datblygwr ohebu ar ffurf ysgrifenedig. Er enghraifft, noda CBS Pen-y-bont ar Ogwr nad oes llawer o angen am wasanaeth swyddogion ar ddyletswydd yn ei farn ef o ystyried y gwasanaeth cyn ymgeisio statudol sefydledig a ddarperir ganddo.

| Dangosydd 14 - A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio ? | Oes (23 o 25 CDLl) |
|---|---|

Mae'r gallu i weld ceisiadau cynllunio a dogfennau ategol ar y rhyngrwyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, yn arbennig i'r rheini na allant gyrraedd swyddfeydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, am resymau'n ymwneud â mynediad, teithio neu ymrwymiadau amser. Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn defnyddio systemau TGCh a all gyhoeddi ffeiliau ceisiadau cynllunio a chynnwys cysylltiedig yn uniongyrchol i wefan yr awdurdod.




**Ffig 36 – Nifer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n cynnig manylion llawn, manylion rhannol neu ddim manylion am geisiadau cynllunio ar eu gwefan**





**Ffig 37 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o nifer yr awdurdodau sy'n cyhoeddi gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar eu gwefan**

Dengys Ffigur 37 fod 21 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn darparu mynediad llawn i ffeiliau ceisiadau cynllunio ar eu gwefan. O'r pedwar sy'n weddill, mae dau ohonynt (CS Ceredigion ac APC Arfordir Penfro) yn darparu rhywfaint o wybodaeth am geisiadau cynllunio ac nid yw dau ohonynt (CBS Blaenau Gwent a CS Ynys Môn) yn darparu unrhyw fanylion. Fel gyda'r llynedd, ni fu unrhyw newid o ran perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn ystod y cyfnodau adrodd, ond mae pob un o'r pum Awdurdod Cynllunio Lleol nad ydynt yn cyrraedd y safon "dda" yn nodi eu bod yn ystyried cynnig mwy o fynediad electronig i ddogfennau cynllunio yn y dyfodol. Ers casglu'r ystadegau hyn, mae CBS Torfaen eisoes wedi gwella ei wasanaeth ar y we, gan symud o'r band perfformiad "gwella" i "da".

## ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd 15 - Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod | 85.0%

Gall trydydd partïon ddisgwyl ymchwiliad i achosion honedig o dor-rheolaeth cynllunio o fewn cyfnod amser rhesymol. Nodwyd y targed o 84 diwrnod, neu 12 wythnos, fel cyfnod rhesymol ar gyfer ymateb i gwynion.





**Ffig 38 – Canran y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod**

Dengys Ffigur 38 uchod berfformiad unigol Awdurdodau Cynllunio Lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae 18 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyrraedd y band perfformiad "da" yn hawdd. Mae allanolion sylweddol o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad hwn.

Mae Cyngor Sir Powys wedi nodi problemau gyda'i system TGCh, sydd ym marn y Cyngor wedi arwain at ddarparu data anghywir. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn nodi problemau o ran prinder staff yn ei dîm gorfodi cynllunio, sydd wedi llesteirio ymdrechion i wella safonau perfformiad yn erbyn dangosyddion gorfodi yn gyffredinol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi ei berfformiad ei hun yn erbyn y dangosydd hwn ac wedi ymrwymo i gynnal archwiliad o'i wasanaeth gorfodi, er mwyn adolygu arferion gwaith a gwella amseroldeb.





**Ffig 39 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod**

Dengys Ffigur 39 yn y rhan fwyaf o achosion (88.1%), yr ymchwilir i gwynion am dor-rheolaeth cynllunio o fewn y dyddiad targed, sef 84 diwrnod. Mae cynnydd parhaus o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn ledled Cymru yn dangos ymrwymiad i gyflawni safonau da o fewn gwasanaethau cyhoeddus hyd yn oed ar adegau lle ceir cyfyngiadau ariannol.

**Dangosydd 16 - Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi** | **88.1 diwrnod**


Bwriedir i'r dangosydd hwn weithredu fel dull o gymharu perfformiad awdurdodau yn erbyn y terfyn amser o 84 diwrnod ar gyfer ymchwilio i achosion perfformiad, a gofnodir uchod.




**Ffig 40 – Yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi**

Dengys Ffigur 40 uchod y gymhariaeth rhwng amseroedd cyfartalog i ymchwilio i achosion gorfodi. Ceir amrywiad sylweddol yn y lefelau perfformiad a gofnodir, gydag un allanolyn eithafol yn y siart gymharol hon, sydd ar ei ben ei hun yn gwyro cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn sylweddol.

Noda Cyngor Sir Powys ei fod wedi gwneud ymdrechion i ymdrin â nifer o achosion gorfodi hanesyddol yn ystod y cyfnod adrodd, gan arwain at bortread negyddol o'i wasanaeth cynllunio, y mae'n gobeithio y caiff ei gywiro yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. I'r gwrthwyneb, noda CBS Wrecsam, yr awdurdod â'r perfformiad gorau yn erbyn y dangosydd hwn, nad oes ganddo hyder yn y ffordd y caiff y data hyn eu casglu, a'i fod yn amau bod ei berfformiad yn afresymol o gadarnhaol o gymharu ag awdurdodau eraill.





**Ffig 41 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi, mewn diwrnodau**


Ar ôl adolygu'r dangosyddion perfformiad a'r targedau, cytunwyd bod ansicrwydd ac anghysondeb mewn gweithdrefnau casglu a chofnodi o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer y dangosydd hwn yn tanseilio'r penderfyniad i'w gynnwys fel dangosydd haen uchaf o berfformiad gwasanaethau. Ategir hyn gan rai o'r sylwadau a wnaed gan Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol yn eu APBau. O ganlyniad, ni chaiff y dangosydd ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## Dangosydd 17 - Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod — 72.8%

Mae'r dangosydd hwn yn mesur yr amser rhwng yr adeg y caiff cwyn am dor-rheolaeth cynllunio ei derbyn a'r adeg y caiff yr achos ei ddatrys. Cytunwyd yn flaenorol bod y mesur hwn yn ddiffygiol, gan ei fod yn ystyried bod datrys yr achos yn golygu bod y tor-rheolaeth wedi dod i ben, sy'n cynnwys camau gweithredu (neu ddiffyg camau gweithredu) gan y datblygwr o fewn cwmpas perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol. Drwy amrywiaeth o ddulliau, gall datblygwr ymestyn y cyfnod amser hwn yn sylweddol ac mae hyn yn aml y tu hwnt i reolaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol.




**Ffig 42 – Canran y cwynion gorfodi a gaiff eu datrys o fewn 180 diwrnod**





**Ffig 43 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r achosion gorfodi a gaiff eu datrys o fewn 180 diwrnod**

Fel y dengys Ffigurau 42 a 43, ceir amrywiad eang o ran y safonau perfformiad a gofnodir yn erbyn y dangosydd hwn ar lefel leol, er bod lefelau perfformiad cenedlaethol cyfartalog yn sefydlog. Fel gyda dangosydd 16, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddadl a wnaed gan Awdurdodau Cynllunio Lleol nad yw'r dangosydd hwn yn adlewyrchu perfformiad gwasanaethau cynllunio lleol, ac wedi cytuno y dylid dileu'r dangosydd hwn hefyd.

Dangosydd 18 - Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | 201.1 diwrnod


Mae'r dangosydd hwn yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddatrys cwynion gorfodi, fel y disgrifir yn Nangosydd 17.




**Ffig 44 – Yr amser cyfartalog a gymerir i ddatrys achosion gorfodi**

Fel gyda Dangosyddion 16 ac 17 uchod, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nodi heriau wrth ddeall a dehongli sut y dylid cymhwyso'r dangosydd hwn. Mae'r dangosydd hwn hefyd yn arbennig o agored i gamau gweithredu gan ddatblygwyr i apelio neu osgoi cael eu herlyn am achosion a gadarnhawyd o dor-rheolaeth cynllunio, sy'n golygu y caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol eu mesur yn erbyn hyn yn hytrach nag yn erbyn eu safonau gwasanaeth eu hunain.

Fodd bynnag, mae pob un o'r tri awdurdod a restrir ar ochr dde eithaf Ffigur 33 uchod wedi cyfeirio at broblemau o ran gwaith achos gorfodi, gan gynnwys absenoldebau staff, datrys achosion hanesyddol ac ad-drefnu gwasanaethau.




**Ffig 45 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o'r amser cyfartalog a gymerir i ddatrys achosion gorfodi, mewn diwrnodau**

Dengys Ffigur 45 yr amser cyffredinol a gymerir i ddatrys achosion gorfodi, sydd wedi lleihau ychydig.

Yn dilyn trafodaeth gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ym mis Mehefin 2017, cytunodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno dangosydd diwygiedig i nodi'r amser a gymerir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i gymryd camau gorfodi mewn achosion lle y cadarnhawyd tor-rheolaeth cynllunio. Bydd y dangosydd newydd yn nodi'r amser cyfartalog a gymerir i gymryd "camau gorfodi cadarnhaol".

Ystyr "camau cadarnhaol" yw y penderfynwyd, yn dilyn ymchwiliad, bod achos o dor-rheolaeth wedi digwydd, ac y cafwyd un o'r canlyniadau canlynol hefyd:

i. arweiniodd negodi anffurfiol at ddileu'r tor-rheolaeth;
ii. cyhoeddwyd Hysbysiad Gorfodi (ni fydd hyn yn cynnwys cyhoeddi Hysbysiad Rhybudd Gorfodi nac unrhyw ohebiaeth anffurfiol a anfonwyd);
iii. rhoddwyd caniatâd cynllunio wedi hynny drwy gais neu apêl gorfodi;
iv. cyflwynwyd erlyniad (caiff y dyddiad y caiff yr achos ei wrando gyntaf ei ystyried fel dyddiad y "camau cadarnhaol");
v. arweiniodd camau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod at ddileu'r tor-rheolaeth.

Datblygwyd y dangosydd hwn drwy waith ymgysylltu helaeth â thimau rheoli datblygu a gorfodi ledled Cymru. Ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf, bydd yn bosibl mesur effeithiolrwydd gwasanaethau gorfodi lleol yn fwy cywir.


DANGOSYDD NEWYDD - Canran y Caniatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 62.0%

Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu ystadegau perfformiad ar y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig ers sawl blwyddyn, ac mae gwaith dadansoddi ar lefel uchel o'r ystadegau perfformiad hyn wedi nodi safon perfformiad is na'r disgwyl mewn perthynas â'r math hwn o achosion.

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod dangosyddion perfformiad ac adolygu blynyddol, cytunwyd y dylid mabwysiadu canran y ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn brydlon fel dangosydd newydd yn y Fframwaith Perfformiad.

Drwy adolygu'r data hanesyddol, hwyluswyd trafodaeth ar dargedau perfformiad hefyd. Byddai'r rhain yn gosod awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau prydlon ynghylch 60% neu lai o achosion CARh o fewn y band "gwella" a'r rheini sy'n gwneud 80% neu fwy o fewn y band "da". Er na fyddai'r targedau hyn yn cael eu cymhwyso'n wreiddiol at Awdurdodau Cynllunio Lleol, gellir eu cymhwyso eisoes ar lefel genedlaethol, ac maent yn cynnig safon i'w hystyried o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Caiff "yn brydlon" ei ddehongli yn yr un ffordd ar gyfer ceisiadau CARh a cheisiadau cynllunio; o fewn 16 wythnos ar gyfer ceisiadau sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ac 8 wythnos ar gyfer pob cais arall, neu o fewn estyniad i'r naill terfyn amser neu'r llall os bydd yr ymgeisydd wedi cytuno i hynny.




**Ffig 46 – Cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn o ganran y ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig y gwnaed penderfyniad yn eu cylch yn brydlon**

Dengys Ffigur 46 y perfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosydd hwn, ac mae'r perfformiad gwael ar lefel genedlaethol yn dangos bod angen nodi'r agwedd hon ar y gwasanaeth fel agwedd sy'n werth ei hystyried fel dangosydd perfformiad.   Rydym yn rhagweld tuedd gadarnhaol yn y dyfodol.

## 4 – DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel:

> *Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, a hynny'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.*

Mae gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r system gynllunio yn allweddol wrth weithredu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi ar gyfer defnyddio, rheoli a datblygu tir er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn gweithredu fel system allweddol ar gyfer rhoi'r Strategaeth Genedlaethol, "Ffyniant i Bawb", ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyfres o saith dangosydd allweddol wedi'u cynllunio i nodi sut mae'r system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy strategol yng Nghymru, sef:

- DC1 Adnewyddu'r Economi – Datblygu'r Economi
- DC2 Economi Carbon Isel – Ynni Adnewyddadwy
- DC3 Mynediad at Well Cartrefi – Cartrefi Newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- DC4 Y Gallu i Wrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd – Perygl Llifogydd
- DC5 Defnydd Effeithlon o Dir – Tir a Ddatblygwyd yn y Gorffennol
- DC6 Man Agored – Man Agored a Gollwyd/Enillwyd
- DC7 Seilwaith Cymunedol – Cyfraniadau a Sicrhawyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol

Cesglir y wybodaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ar ôl iddynt ystyried ceisiadau cynllunio a chaiff ei chyflwyno bob chwarter. Fe'i defnyddir ar gyfer gwaith dadansoddi cronnol yn hytrach na chymharol.

Mae angen darparu'r data er mwyn dangos y rhan sylweddol y mae'r system gynllunio yn ei chwarae wrth helpu i sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau datblygu cynaliadwy a gwerth cynllunio i gymdeithas yn fwy cyffredinol.

Cyflwynodd yr ACLlau canlynol ddata cyflawn yn ystod y cyfnod adrodd:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ynys Môn


Cyflwynodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol canlynol gofnodion rhannol yn ystod y cyfnod adrodd:


- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir y Fflint
- Dinas a Sir Abertawe


Rydym yn parhau i weithio tuag at dderbyn cofnodion cyflawn o'r setiau data pwysig hyn, sy'n dangos sut y gall y system gynllunio ein helpu i symud tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygu economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.

Caniatwyd 154,819 msg, gwrthodwyd 14,283 msg.






Rhaid i'r system gynllunio gefnogi datblygu economaidd a llywio datblygiadau o'r fath tuag at y lleoliadau mwyaf priodol. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at sicrhau datblygiad economaidd traddodiadol ar safleoedd cyflogaeth a nodwyd.

O blith yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a ddarparodd ddata, caniatawyd 154,819 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer datblygiadau economaidd.  Mae'r ffigur hwn wedi gostwng 63% o gymharu â'r llynedd, pan ganiatawyd 245,670 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr newydd.  Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu gostyngiad cyffredinol yn yr arwynebedd llawr newydd ar gyfer datblygiadau economaidd ers 2013-14.

Eleni, tir busnes oedd 52% o gyfanswm y tir a ganiatawyd (81,915 o fetrau sgwâr), o gymharu â dim ond 6% (14,390 o fetrau sgwâr) yn 2015-16 a 27% ( ) yn 2014-15. Roedd y 48% arall wedi'i rannu rhwng y tri sector arall (diwydiant cyffredinol, storio a dosbarthu ac aml ddefnydd), ac roedd y gyfran fwyaf, sef 24% (36,485 o fetrau sgwâr) ar gyfer storio a dosbarthu.


Gwrthodwyd cyfanswm o 14,283 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer datblygiadau economaidd yn 2016-17, sef gostyngiad o 54% o gymharu â 2015-16, pan wrthodwyd 26,432 o fetrau sgwâr. Eleni, busnes oedd y rhan fwyaf o'r achosion a wrthodwyd, sef 92% (13,153 o fetrau sgwâr), o gymharu â'r llynedd lle yr oedd pob achos a wrthodwyd yn ymwneud â storio a dosbarthu.

Nododd yr APBau y bu'r gyfradd defnydd ar gyfer tir cyflogaeth mewn rhai rhannau o Gymru yn gyfyngedig oherwydd lefelau galw isel.  Fodd bynnag, mae'r canlyniadau busnes yn awgrymu y bu rhywfaint o ddiddordeb datblygu yn y sector hwn, gyda'r arwynebedd llawr a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn cyfrif am 56% o gyfanswm yr arwynebedd llawr arfaethedig.  Cafwyd y cynnydd mwyaf ym Mhowys a Wrecsam.


## SD2. Caniatadau Cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel


**106 Ceisiadau, 119 Megawat**

**SD2 Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiatawyd**




**SD2 Capasiti allbwn ynni y datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiatawyd (MW)**






Gall y system gynllunio hwyluso prosesau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a symud tuag at economi carbon isel.

Dengys y data fod y system gynllunio yn hwyluso cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Fodd bynnag, o gymharu â blynyddoedd blaenorol, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a gallu'r cynlluniau hynny i gynhyrchu ynni.

Caiff y nifer fwyaf o geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer technolegau solar, y gwynt ac ynni dŵr. Cynlluniau ynni solar sy'n cyfrannu'r cynhwysedd ynni mwyaf o lawer, er bod lefelau'n is na lefelau'r flwyddyn flaenorol o hyd. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cynlluniau gwynt a biomas a gymeradwyir, gyda'r cynlluniau hynny a gymeradwyir hefyd yn llai o ran maint.


Mae'n debygol y gellir priodoli'r gostyngiad mewn cymeradwyaethau i doriadau Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gyfundrefn cymorthdaliadau ynni adnewyddadwy. Yn ystod y flwyddyn flaenorol (2015/16), cafwyd uchafbwynt mewn caniatadau, a oedd yn deillio, fwy na thebyg, o ganlyniad i'r ffaith bod datblygwyr yn ceisio cael caniatâd cynllunio cyn i'r newidiadau mewn perthynas â chymorthdaliadau ddod i rym. Dengys y data ar gyfer 2016/17 y bu gostyngiad dilynol ers y newidiadau i'r cymorthdaliadau. Caiff y patrwm hwn hefyd ei adlewyrchu yn y data a gesglir gan Lywodraeth Cymru i fonitro statws datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir yng Nghymru[1], a ganfu na chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio newydd ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir (dros 5MW) yn 2016/17.

[1] Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru (2017) Cronfa Ddata 2017 - Adolygiad o Ddatblygiadau Ffermydd Gwynt ar y Tir

Yn gyffredinol, dengys y data fod nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n cael eu cyflwyno ac sy'n cael caniatâd yng Nghymru yn arafu.  Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu ynni adnewyddadwy ac wedi pennu targed i Gymru gynhyrchu 70 y cant o'r trydan a ddefnyddir ganddi o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030.  Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon a sicrhau bod polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu fframwaith ar gyfer cynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy i'r eithaf.

## SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn

10,860 marchnad, 4009 fforddiadwy





Mae'r system gynllunio yn hwyluso trefniadau ar gyfer darparu tai ar y farchnad a thai fforddiadwy i fodloni'r gofynion tai lleol a nodwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu cynlluniau datblygu.  Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio i ddarparu tai newydd ar ffurf caniatadau cynllunio a roddir ar gyfer tai ar y farchnad a thai fforddiadwy.  Fel y cyfryw, ni ellir cymharu'r dangosydd hwn ag ystadegau Llywodraeth Cymru ar 'Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy' ac 'Adeiladu tai newydd', y mae'r ddau yn casglu data yn bennaf ar dai a gwblhawyd.


Dengys y data fod 14,869 o anheddau wedi cael caniatâd cynllunio yn 2016/17. Fodd bynnag, gan nad yw rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi darparu data, mae'r nifer wirioneddol yn debygol o fod yn uwch.  Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd, bu cynnydd o 4,067 yn nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer o gymharu â'r data o'r flwyddyn flaenorol.

Dengys y data y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 4,009 o anheddau fforddiadwy (fel y'u diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 2, *Cynllunio a Thai Fforddiadwy*), sef cynnydd o 1,970

o anheddau fforddiadwy o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r caniatadau a roddwyd ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer 2016/17 yn cynrychioli 27% o gyfanswm nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer, sef cynnydd o 8% o gymharu â data'r llynedd.

| | |
|---|---|
| SD4. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn | Caniatawyd 1972 uned preswyl a 99 hectarau, gwrthodwyd 3137 uned preswyl a 2 hectar |







Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau na chaiff datblygiadau newydd eu hamlygu'n ddiangen i lifogydd ac yn unol â hynny, mae'n ceisio cyfeirio datblygiadau at leoliadau lle na cheir llawer o risg o lifogydd, os o gwbl. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut y caiff ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd eu rheoli. Yn gyffredinol, dengys y canlyniadau gynnydd gofidus yn nifer y datblygiadau a gymeradwywyd mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn 2016-17, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Dengys y canlyniadau fod 217 o anheddau preswyl wedi'u cymeradwyo ym mharth llifogydd C2. Ym mharth llifogydd C1, lle na chaiff datblygiadau preswyl eu gwrthwynebu mewn egwyddor, yn amodol ar fodloni profion NCT 15, rhoddwyd caniatâd ar gyfer 1,754 o anheddau pellach. O'u plith, nid oedd 674 ohonynt yn bodloni holl brofion NCT 15. Roedd un datblygiad - troi adeilad presennol yn fflatiau i fyfyrwyr - yn cynnwys 441 o'r anheddau hynny a gymeradwywyd, ond mae'r ffigurau hyn yn peri gofid. Yn gyffredinol, cymeradwywyd 1,754 yn fwy o anheddau ym mharth cyfun C1 nag yn 2015/16.

Caiff y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiadau di-breswyl eu hystyried fel datblygiadau sy'n llai agored i lifogydd yn NCT 15. Cymeradwywyd dros 660 hectar o dir i'w ddatblygu lle bodlonwyd profion NCT 15, a dim ond 27.5 hectar a gymeradwywyd i'w ddatblygu heb fodloni'r profion. Yn 2015-16, o gymharu, cymeradwywyd dros 1,800 hectar ar gyfer datblygiadau di-breswyl.

| SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn. | 2,558 (ddatblygwyd o'r blaen)<br>398 (maes glas) |
|---|---|




Gall y system gynllunio sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y caiff tir a ddatblygwyd yn y gorffennol ei ddefnyddio yn hytrach na safleoedd maes glas, yn enwedig y safleoedd hynny

o werth amaethyddol neu ecolegol uchel. Mae'r dangosydd hwn yn nodi p'un a yw'r system gynllunio yn cyfeirio datblygiadau newydd at dir a ddatblygwyd yn y gorffennol.


Yn 2016/17, cyfeiriodd y system gynllunio ddatblygiadau newydd yn bennaf at dir a ddatblygwyd yn y gorffennol. O'r data a ddarparwyd, cymeradwywyd 87% o ddatblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn y gorffennol.  Ceir gwahaniaethau rhanbarthol, ac mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn ardaloedd gwledig lefelau uwch o ddatblygiadau ar dir maes glas.

Mae data eleni yn debyg i ddata 2014/15, ond mae'n wahanol iawn i ddata 2015/16. Mae'r APBau ar gyfer 2015/16 yn awgrymu bod yr anghysondeb hwn yn deillio o gymeradwyo sawl safle strategol, a neilltuwyd i'w datblygu mewn CDLlau, a nifer uchel o ffermydd solar a ffermydd gwynt a gymeradwywyd y flwyddyn honno.

Er mai dim ond tair blynedd o ddata sydd i'w cymharu, ymddengys fod data eleni yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system gynllunio yn bennaf yn cyfeirio datblygiadau newydd at dir a ddatblygwyd yn y gorffennol.  Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn nodi nad yw hyn bob amser yn bosibl a bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn caniatáu datblygiadau ar dir maes glas lle nad oes unrhyw safleoedd tir llwyd amgen.

SD6.  Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.


99 ha gollir
111 ha enillir




Mae mannau agored yn darparu gwerth hamdden, amwynder ac amgylcheddol yn ogystal â chwarae rhan wrth ddiogelu'r hinsawdd ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.  Mae'r dangosydd hwn yn mesur y ffordd y mae'r system gynllunio yn diogelu mannau agored sy'n bodoli eisoes ac yn hwyluso mannau agored newydd.

Dengys y data fod mwy o fannau agored wedi'u hennill nag a gollwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffigurau yn welliant sylweddol o gymharu â'r llynedd, lle cafwyd colled net o ran mannau agored.  Dim ond pan ddarperir cyfleuster o ansawdd cyfatebol neu well, neu lle nad oes angen y man mwyach, y mae polisi cynllunio yn caniatáu i fan agored gael ei golli. Adlewyrchir hyn yn yr ymatebion yn yr APBau, sy'n nodi lle y collwyd man agored, fod hynny wedi arwain at welliant mewn cyfleusterau rywle arall.

| SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y chwarter blwyddyn. | £25,844,132 (Adran 106) £691,988 (ASC) |
| --- | --- |




Gellir defnyddio cyfraniadau ariannol i ariannu'r ddarpariaeth seilwaith cymunedol sydd ei hangen i ategu datblygu cynaliadwy.  Mae'r dangosydd hwn yn mesur lefel y cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.

Dengys y data fod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd wedi darparu gwybodaeeth wedi sicrhau swm sylweddol o gyfraniadau ariannol i ariannu seilwaith cymunedol, drwy Gytundebau Adran 106 yn bennaf.

O gymharu â data'r llynedd, bu cynnydd o £5,992,408 mewn Cytundebau Adran 106, fodd bynnag, bu gostyngiad o £416,179 yn y cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol a gesglir. Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd o £5,576,229 mewn cyfraniadau ariannol. Ar gyfartaledd, casglwyd cyfraniadau Adran 106 cyfartalog o £1,033,765 fesul awdurdod lleol, gyda'r cyfraniadau uchaf yng Nghaerdydd (£12,481,326), Bro Morgannwg (£5,349,489) a Phen-y-bont ar Ogwr (£1,742,377). Nododd wyth awdurdod (Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn, APC Arfordir Penfro, APC Eryri ac Abertawe) na

chasglwyd unrhyw gyfraniadau. Dim ond tri awdurdod a nododd gyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol; Caerffili (£565,134), Rhondda Cynon Taf (£122,952) a Merthyr Tudful (£3,900).

O blith yr awdurdodau a ddarparodd sylwadau yn eu APB, nodwyd datblygiadau bach a lefelau isel o ddatblygiadau fel rhesymau dros ddiffyg cyfraniadau Adran 106 mewn rhai ardaloedd penodol.  Nododd un awdurdod fuddiannau mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar rwymedigaethau cynllunio.

Nid yw llawer o awdurdodau yn gweithredu trefn codi taliadau ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, neu maent yn aros am gadarnhad y bydd yr ardoll yn parhau yng Nghymru pan ddaw Deddf Cymru 2017 i rym, cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

## 5 – CASGLIAD

Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r system gynllunio yng Nghymru a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 bellach wedi dod i rym yn llawn, ac rydym yn rhagweld y bydd y cyfnod adrodd nesaf yn darparu'r sail dystiolaeth i ddeall effaith cyflwyno'r haen newydd o benderfyniadau mewn perthynas â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Er bod cynnwys pob APB a dderbyniwyd eleni yn llai cynhwysfawr na'r llynedd, mae neges graidd pob un yn gryf. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, mae timau cynllunio lleol yn parhau i wynebu diffyg adnoddau ac mae mentrau polisi cenedlaethol a lleol i greu ffyniant yn ceisio sicrhau gweithrediad gofodol drwy'r system gynllunio. Mae ymatebion creadigol, ond ar raddfa gymharol fach, yn dal i gael eu cyflwyno i heriau cyllidebol a phrinder staff.

Er bod llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyfeirio at fuddiannau posibl yn sgil trefniadau cydweithio agosach, prin yw'r rhai sydd wedi dangos ymdrech wirioneddol i fynd i'r afael â phroblemau cydnerthedd drwy weithio mewn ffordd fwy cydweithredol neu rannu adnoddau. Er bod gwaith yn parhau yng Ngogledd Cymru i gysoni arferion gweinyddol mewnol a sicrhau na cheir achosion o orgyffwrdd â gwaith gyda chyrff cyfagos a noddir gan Lywodraeth Cymru megis Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw'r dull cydweithredu hwn mewn gwirionedd yn cynnwys rhannu adnoddau nac arbenigedd.

Mae'r darlun hwn o ostyngiad mewn adnoddau ynghyd â disgwyliadau cynyddol ar gyfer y gwasanaeth cynllunio yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod cynllunio yn cael blaenoriaeth o fewn diwygiadau llywodraeth leol ehangach. Rydym o'r farn y bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn "Diwygio llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad" yn helpu i ymdrin â'r heriau gweithredol sy'n wynebu llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio.

Mae diwygio llywodraeth leol yn creu heriau newydd o ran yr angen i adolygu CDLlau. Er bod rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol eisoes wedi nodi llwyddiant wrth gasglu sail tystiolaeth ar y cyd ynghyd ar gyfer CDLlau, gydag unrhyw fath o ad-drefnu, mae angen ystyried adolygu'r CDLlau presennol ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Bydd angen gwell hyblygrwydd a dull gweithredu cydweithredol er mwyn rhoi hyn ar waith.

# SIART Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO - IONAWR I MAWRTH 2017

**Fersiwn:** 5 **Dyddiad:** 22/02/2018

| DANGOSYDD | DDA | TEG | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | Blaenau Gwent | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili | Caerdydd | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Ynys Môn | Merthyr Tydfil | Sir Fynwy | Castell-nedd Port Talbot | Casnewydd | Sir Benfro | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Powys | Rhondda Cynon Taf | Parc Cenedlaethol Eryri | Abertawe | Torfaen | Bro Morgannwg | Wrecsam |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwneud Cynlluniau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes |
| Y gwyriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd. | <12 | 13-17 | 18+ | 58 | | | | | | | | | | | 16 | 86 | | | | | | | 24 | | | 44 | | 73 | 107 |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLl | Ie | | Na | | | Ie | Ie | Ie | | | Ie | Ie | Ie | | | | Ie | Ie | | | Ie | Ie | | Ie | Ie | | Ie | | |
| Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd | 5+ | | <5 | 2.9 | 1.3 | 5 | 5.1 | 1.5 | 3.8 | 4.1 | 3.4 | 3.7 | 2 | 0 | 2.9 | 0 | 1.6 | 4.1 | 5 | 5.9 | 5.1 | 2 | 2.2 | 1.5 | 5.4 | 3 | 3.6 | 0 | 0 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol | | | | 59 | 75 | 90 | 35 | 68 | 31 | 16 | 17 | 71 | 31 | 42 | 54 | 67 | 100 | 88 | 78 | 50 | 61 | 0 | 81 | 59 | 33 | 81 | 46 | 77 | 90 |
| | | | | 405 o 684 | 3 o 4 | 19 o 21 | 13 o 37 | 15 o 22 | 20 o 65 | 6 o 38 | 2 o 12 | 15 o 21 | 8 o 26 | 16 o 38 | 15 o 28 | 12 o 18 | 10 o 10 | 15 o 17 | 21 o 27 | 18 o 36 | 17 o 28 | 0 o 3 | 52 o 64 | 16 o 27 | 1 o 3 | 38 o 47 | 6 o 13 | 24 o 31 | 43 o 48 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau | | | | 250.2 | 125.0 | 296.5 | 171.0 | 154.8 | 338.0 | 566.8 | 256.5 | 190.5 | 229.5 | 271.8 | 147.0 | 496.8 | 110.0 | 321.0 | 447.5 | 238.5 | 92.8 | 448.0 | 398.8 | 170.3 | 158.0 | 148.0 | 144.5 | 243.0 | 205.8 |
| Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 60.1-79.9 | <60 | 86.7 | 94.8 | 96.9 | 80.9 | 91.0 | 83.6 | 69.9 | 75.2 | 92.8 | 79.7 | 78.1 | 82.8 | 91.3 | 99.2 | 89.8 | 95.8 | 82.8 | 90.0 | 80.4 | 92.3 | 89.7 | 80.8 | 96.6 | 78.7 | 91.1 | 93.1 |
| | | | | 21674 o 25008 | 309 o 326 | 588 o 607 | 755 o 933 | 853 o 937 | 2356 o 2819 | 989 o 1414 | 708 o 942 | 916 o 987 | 712 o 893 | 861 o 1103 | 823 o 994 | 815 o 893 | 359 o 362 | 976 o 1087 | 783 o 817 | 845 o 1021 | 781 o 868 | 389 o 484 | 1188 o 1287 | 1050 o 1171 | 428 o 530 | 1806 o 1870 | 380 o 483 | 1166 o 1280 | 838 o 900 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | 75.9 | 58.8 | 77.8 | 60.3 | 70.5 | 69.7 | 94.5 | 86.3 | 66.5 | 68.3 | 86.5 | 61.5 | 81.3 | 56.3 | 72.5 | 72.0 | 89.5 | 64.3 | 60.7 | 162.0 | 71.3 | 77.0 | 66.5 | 72.8 | 60.0 | 84.8 |
| **Ansawdd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o dan bwerau datganoledig | | | | 93.6 | 93.3 | 93.9 | 94.9 | 92.6 | 96.8 | 92.9 | 91.9 | 95.9 | 94.3 | 95.0 | 90.5 | 90.5 | 92.8 | 93.5 | 95.5 | 95.2 | 93.8 | 93.2 | 91.0 | 92.4 | 91.5 | 97.1 | 89.2 | 96.0 | 81.6 |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion | <5 | 5-9 | 9+ | 10.9 | 27.3 | 2.7 | 0.0 | 10.1 | 3.3 | 8.0 | 59.2 | 2.5 | 11.8 | 25.5 | 3.2 | 8.2 | 3.8 | 7.0 | 8.1 | 10.2 | 1.9 | 9.1 | 5.2 | 11.2 | 17.8 | 24.1 | 3.8 | 7.8 | 7.8 |
| | | | | 175 o 1610 | 6 o 22 | 1 o 37 | 0 o 48 | 7 o 69 | 3 o 90 | 8 o 100 | 45 o 76 | 1 o 40 | 6 o 51 | 14 o 55 | 3 o 94 | 7 o 85 | 1 o 26 | 5 o 71 | 3 o 37 | 5 o 49 | 1 o 54 | 3 o 33 | 6 o 116 | 10 o 89 | 8 o 45 | 13 o 54 | 2 o 52 | 4 o 51 | 13 o 166 |
| Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | 66+ | 55.1-65.9 | <55 | 60.9 | 62.5 | 40.0 | 73.1 | 50.0 | 59.6 | 60.0 | 52.9 | 56.3 | 60.0 | 48.9 | 66.7 | 73.7 | 83.3 | 71.4 | 62.5 | 77.8 | 58.3 | 83.3 | 69.0 | 42.9 | 72.7 | 65.0 | 66.7 | 51.6 | 50.0 |
| | | | | 335 o 550 | 5 o 8 | 2 o 5 | 19 o 26 | 7 o 14 | 28 o 47 | 15 o 25 | 9 o 17 | 9 o 16 | 9 o 15 | 23 o 47 | 14 o 21 | 14 o 19 | 5 o 6 | 10 o 14 | 5 o 8 | 21 o 27 | 7 o 12 | 5 o 6 | 20 o 29 | 12 o 28 | 8 o 11 | 52 o 80 | 4 o 6 | 16 o 31 | 16 o 32 |
| Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2+ | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhan-nol | Nac oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhannol | Oes | Oes | Oes | Oes | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Rhannol | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd torri rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a oedd camau gorfodi yn addas) o fewn 84 diwrnod | | | | 85.0 | 98.0 | 90.6 | 84.9 | 73.1 | 99.6 | 66.8 | 94.2 | 97.8 | 95.7 | 39.8 | 84.2 | 89.9 | 100.0 | 83.5 | 97.7 | 91.6 | 61.1 | 69.4 | 29.0 | 88.5 | 93.2 | 71.9 | 98.9 | 95.0 | 100.0 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi | | | | 74.3 | 11.0 | 44.3 | 48.3 | 184.0 | 11.7 | 122.5 | 32.5 | 15.8 | 57.0 | 201.8 | 47.3 | 37.0 | 10.0 | 21.3 | 9.8 | 60.8 | 209.0 | 140.0 | 401.7 | 21.0 | 33.8 | 160.3 | 9.5 | 15.8 | 4.0 |
| Canran yr achosion lle cydymffurfir â hysbysiad gorfodi neu pan fydd caniatâd cynllunio ôl-weithredol yn cael ei roi o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle roedd gorfodi'n addas). | | | | 73.0 | 66.0 | 66.0 | 86.5 | 49.6 | 86.8 | 83.5 | 37.1 | 82.0 | 74.8 | 51.5 | 77.8 | 85.5 | 89.9 | 63.8 | 84.1 | 76.5 | 76.4 | 70.3 | 30.8 | 78.7 | 55.1 | 52.3 | 84.8 | 77.9 | 84.5 |
| Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi | | | | 201.1 | 139.8 | 322.5 | 81.8 | 323.3 | 142.7 | 133.8 | 412.3 | 114.5 | 124.3 | 224.5 | 133.5 | 108.5 | 89.0 | 227.3 | 100.8 | 179.5 | 208.0 | 195.3 | 532.3 | 120.8 | 544.8 | 319.5 | 115.8 | 129.5 | 71.1 |

**Atodiad B**

## Rhestr o ddolenni i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer 2016-17

Isod ceir rhestr o ddolenni i wefannau, lle y maent ar gael, i APBau pob Awdurdod Cynllunio Lleol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn
Dinas a Sir Abertawe

**Atodiad C**

**Ystadegau perfformiad ymgynghoreion statudol ar gyfer ymatebion o sylwedd i geisiadau cynllunio 2016-17**

| Enw | Math | Sawl gwaith yr ymgynghorwyd â nhw | Sawl gwaith y gwnaethant ymateb | Ymatebion prydlon | Ymatebion hwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredwyr rhwydweithiau rheilffordd | Arall | 283 | 259 | 232 | 27 |
| Deiliaid hawliau ffordd | Arall | | | | |
| Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd | Arall | 47 | 47 | 46 | 1 |
| Yr Awdurdod Glo | Arall | 840 | 840 | 840 | 0 |
| Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Arall | 153 | 153 | 153 | 0 |
| Y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | Arall | 19 | 19 | 19 | 0 |
| Yr Ymddiriedolaeth Theatrau | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Ynys Môn | Arall | 4 | 4 | 4 | 0 |
| ACLl Blaenau Gwent | Arall | 6 | 6 | 3 | 3 |
| ACLl APC Bannau Brycheiniog | Arall | 49 | 39 | 32 | 7 |
| ACLl Pen-y-bont ar Ogwr | Arall | 12 | 10 | 7 | 3 |
| ACLl Caerffili | Arall | 6 | 6 | 3 | 3 |
| ACLl Caerdydd | Arall | 10 | 9 | 4 | 5 |
| ACLl Sir Gaerfyrddin | Arall | | | | |
| ACLl Ceredigion | Arall | | | | |
| ACLl Conwy | Arall | 13 | 5 | -3 | 8 |
| ACLl Sir Ddinbych | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Sir y Fflint | Arall | | | | |
| ACLl Gwynedd | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Merthyr | Arall | 1 | 1 | 1 | 0 |
| ACLl Sir Fynwy | Arall | 7 | 7 | 6 | 1 |
| ACLl Casnewydd | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Castell-nedd Port Talbot | Arall | 3 | 2 | 1 | 1 |
| ACLl APC Arfordir Penfro | Arall | 20 | 18 | 12 | 6 |
| ACLl Sir Benfro | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Powys | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Rhondda Cynon Taf | Arall | | | | |
| ACLl Eryri | Arall | 12 | 0 | 0 | 0 |
| ACLl Abertawe | Arall | 1 | 1 | 1 | 0 |
| ACLl Torfaen | Arall | | | | |
| ACLl Bro Morgannwg | Arall | 12 | 11 | 8 | 3 |
| ACLl Wrecsam | Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd Ynys Môn | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Blaenau Gwent | Priffyrdd | 435 | 435 | 434 | 1 |
| Priffyrdd Pen-y-bont ar Ogwr | Priffyrdd | 320 | 320 | 133 | 187 |
| Priffyrdd Caerffili | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Caerdydd | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Sir Gaerfyrddin | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Ceredigion | Priffyrdd | 617 | 617 | 558 | 59 |
| Priffyrdd Conwy | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Sir Ddinbych | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Sir y Fflint | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Gwynedd | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Merthyr | Priffyrdd | 186 | 186 | 186 | 0 |
| Priffyrdd Sir Fynwy | Priffyrdd | 399 | 399 | 269 | 130 |
| Priffyrdd Casnewydd | Priffyrdd | 687 | 687 | 603 | 84 |
| Priffyrdd Castell-nedd Port Talbot | Priffyrdd | 947 | 947 | 822 | 125 |
| Priffyrdd Sir Benfro | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Powys | Priffyrdd | 1247 | 1247 | 386 | 861 |
| Priffyrdd Rhondda Cynon Taf | Priffyrdd | 632 | 601 | 570 | 31 |
| Priffyrdd Abertawe | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Torfaen | Priffyrdd | | | | |
| Priffyrdd Bro Morgannwg | Priffyrdd | 262 | 262 | 77 | 185 |
| Priffyrdd Wrecsam | Priffyrdd | | | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | 7193 | 7093 | 6750 | 343 |
| Dŵr Cymru | Cwmnïau dŵr | 7387 | 7328 | 7321 | 7 |
| Seven Trent Water | Cwmnïau dŵr | 654 | 654 | 646 | 8 |
| Priffyrdd Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | 422 | 422 | 422 | 0 |
| CADW Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | 679 | 650 | 614 | 36 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tir amaethyddol Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | 3 | 3 | 3 | 0 |